# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 573 · **Mawrth 2026** · £1

# Bwrlwm Gweithgareddau Gerlan

## – o gaffi trwshio i grwydro a gwnio

Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn yng Nghaban Gerlan hefo lli o weithgareddau newydd yn cael eu cynnal i drigolion lleol. Cafwyd taith gerdded hynod ddiddorol hefo Rhys Mwyn, ac mae mwy ar y gweill diolch i gyllid gan LleChi Lle Ni. Ac mae gweithgareddau rheolaidd newydd yn cael eu trefnu.

Un o'r rhain ydy'r grwp gwnio newydd. Yn ol Caren Brown, un o'r trefnwyr "Mae grŵp gwnïo newydd Y Caban yn mynd o nerth i nerth. Mae'n parhau i gael ei gynnal ar ddydd Llun olaf pob mis rhwng 6.30 ac 8.30. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwnïo o unrhyw fath neu'n meddwl dechrau gwnïo yna dewch draw am baned a sgwrs. Mae'n ofod cyfeillgar i gael syniadau, dysgu sgiliau newydd a chael chydig o help ac ysbrydoliaeth os oes angen."

Rhywbeth newydd arall sydd wedi bod ar y gweill ydy Caffi Trwshio. Mae'r Caffi Trwshio yn rhoi cyfle i drigolion ddod ag eitemau wedi torri at wirfoddolwyr profiadol, i weld os oes modd eu hadfer. Fel eglura Jo Hinchcliff,un o wirfoddolwyr Caffi Trwshio Gerlan: "Dwi wastad wedi mwynhau creu, trwshio ac addasu petha a dwi wedi bod hefo cysylltiadau hefo caffis trwshio ar draws Prydain ers tro. Mae Caffis Trwshio yn weithgareddau ar lawr gwlad, lle gall cymunedau ddod ynghyd i drwshio petha', rhannu sgiliau, a herio'r diwylliant prynu a thaflu yr ydym wedi dod i arfer ag o fel cymdeithas, yn anffodus. Mae Caffis trwshio yn arbed arian i bobl, maen nhw'n well i'n planed, ac maen nhw'n helpu dod â phobl ynghyd. Mae'n wych cael bod yn rhan o gaffi trwshio o fewn fy nghymuned fy hyn a dwi wir wedi mwynhau'r her o drio adfer eitemau trigolion lleol. Os oes gynnoch eitemau wedi torri yn eich cartref, o ddilledyn i dwlsyn neu eitem trydanol, peidiwch â›i taflud! Galwch draw i weld os galle ni ei drwshio. Allwn ni ddim gwarantu trwshio popeth, ond gallwn warantu paned a croeso cynnes!"

Mae Caffi Trwshio Gerlan yn cael ei gynnal ar Ddydd Sul olaf y mis, gyda'r nesaf ar Ddydd Sul 29 Mawrth.

Gellir darllen mwy am weithgareddau Caban Gerlan ar dudalen 23, neu dilynwch Caban Gerlan ar facebook.





CABAN GERLAN
NEUADD · GARDD · CEGIN



# Llais Ogwan

**Rhif 573**
**Mawrth 2026**


**Panel Golygyddol**
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

**Swyddogion**
**CADEIRYDD**
Carwyn Meredydd
carwynian@hotmail.com

**Trefnydd hysbysebion**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
(Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis


Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Catrin Wager**.

Y golygydd ym mis **Ebrill** fydd
Fflur Roberts, Bron Eryri,
12 Garneddwen, Bethesda, LL57 3PD.
07767 473209
E-bost : fflur_roberts@hotmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 28 Mawrth** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu Nos Iau, 16 Ebrill
yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £100.00 | Gerwyn Llwyd, Maes y Garnedd, er cof am ei ddiweddar rieni, Glenys W. a R. Lloyd Jones. |
| £500.00 | Cefnogwr hael di-enw. |
| £10.00 | Lowri Williams, Caernarfon. |
| £10.00 | Emyr Roberts, Ffordd Bangor. |
| £20.00 | Huw Davies, Gerlan. |
| £6.00 | Di-enw, Erw Las. |
| £8.00 | Don Hughes, Halifax. |

***Diolch yn fawr***

## Dyddiadur y Dyffryn

**Mawrth**

23 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.

24 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

31 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

31 Cyfarfod Blynyddol Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

**Ebrill**

09 Y Gymdeithas. Pedwarwd. Festri Jerusalem am 7.00.

13 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.

14 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

16 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.

27 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.

28 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**Mai**


07 Etholiad Senedd Cymru. 7.00yb – 10.00yh.

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Mawrth**
£30.00 (147) Margaret Roberts, Ffordd Ffrydlas, Bethesda.
£20.00 (57) Janet Davies, Ffordd Abercaseg, Bethesda.
£10.00 (71) Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda.
£5.00 (18) Huw Davies, Gerlan.

***Diolch yn fawr***

***Newyddion Ebrill i'w dderbyn erbyn dydd Sadwrn, 28 Mawrth. Dyddiad cyhoeddi 16 Ebrill.***




Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG


***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***

# Osian yn Serennu ar Sky



Yn ystod mis Ionawr a Chwefror roedd cyfres ddrama 'Under Salt Marsh' i'w gweld ar y teledu. Os oeddech yn gwylio yna fe welsoch actor ifanc newydd o'r enw Osian Emlyn Williams. Wel mae Osian yn byw yng Nghilfodan, Carneddi gyda'i fam a'i dad Angharad a Bleddyn a'i chwaer Alaw. Mae gan Osian ddau frawd hŷn hefyd, Twm a Siôn. Pan yn ffilmio roedd Osian yn ddisgybl yn Ysgol Llanllechid, mae o bellach yn mynychu Ysgol Dyffryn Ogwen. Dyma Osian yn dweud ei hanes yn ei eiriau ei hun.

**Sut gafodd y rhan?**
"Daeth ebost i'r ysgol yn chwilio am fechgyn rhwng 8 a 11 gydag acen Gogledd Cymru i fod mewn cyfres ddrama. Dwi isho bod yn actor a felly neshi rhoi tro arni. Fel cyfweliad cyntaf roedd rhaid ffilmio fy hun yn gneud cwpwl o olygfeydd gyda'r sgript. Ar y pryd doedd gen i ddim syniad mai cyfres i Sky Atlantic oedd o! Gesi fy ngalw yn ôl i gyfarfod y cynhyrchwyr a'r cyfarwyddwr yn Galeri, Caernarfon - a wedyn ar ôl hynna gesi alwad i fynd i Bermo i gymryd rhan mewn gweithdy. Tua wsos wedyn cafodd Mam alwad ffôn i ddweud bo fi wedi cael y rhan o James Rees"

**Mwynhau y ffilmio?**
"Do - gesi'r cyfla i fynd i lefydd gwahanol dros Gymru - Bermo, Fairbourne, Niwbwrch, Porthcawl a Dragon Studios yn Pen-y-bont. Oedd o'n anhygoel cael profiad o ffilmio mewn stiwdio mawr a gweld sut mae nhw'n creu golygfeydd realistig trwy adeiladu set. Yn y stori mae'r pentref dychmygol - Morfa Halen - yn cael storm fawr a mae llifogydd mawr yn dod ac oedd rhaid i mi ffilmio mewn dŵr. Oedd gweld sut nath y pobl set neud hyn yn wych"

"Oedd hefyd un olygfa nesi ffilmio mewn car yn coedwig Niwbwrch - ond oedd rhaid ail neud y darn tu fewn i'r car yn y stiwdio. O ni'n meddwl bysa na wê gallwn ni ail-greu hwnna mewn ffordd 'convincing' - ond efo green screen mawr o'r goedwig tu ôl y car yn y stiwdio odd o'n edrych union fel oeaddan ni'n Niwbwrch!"

**Mwynhau cael dy gyfarwyddo?**
"Do - o ni'n lwcus i gael dau gyfarwyddwr mewn ffordd. Claire Oakley oedd y cyafrwyddwr ac awdur y gyfres i gyd - hi oedd yn dewis y shots ac oedd hi wastad gyda lot o amser i fi yn dangos beth odd hi'n neud. Ond i helpu efo fy actio gesi hyfforddwr actio - Mary-Ellen O'Hara oedd yn dod o Ogledd Iwerddon a mi oedd hi wedi gweithio ar Game of Thrones a Derry Girls a nath hi helpu fi llwyth. Oedd hi efo fi ym mhob golygfa yn ymarfer gyda fi a cael cyfarfodydd zoom rhwng diwrnodau ffilmio - nesi ddysgu lot fawr ganddi hi."



**Cyfarfod actorion eraill**
"Os dwi'n onest - o ni erioed di clywed am yr actorion eraill! Oedd pawb arall o'r teulu methu coelio bo fi mewn cyfres gyda Kelly Reilly a Jonathan Pryce - ond oni erioed di gweld nhw'n unrhywbeth, felly o ni ddim yn rili deall y ffys! Oedd pawb ar y set yn bobol rili neis. O ni'n cael laff gyda lot o'r criw tu ol y camerau - felly oedd angen i mi neud lot o actio i fod yn drist pan oedd y camerau yn troi!"

**Eisiau gwneud eto?**
"Ydw, dwi isho bod yn actor. Dwi'n hapus neud unrhwy fath o rôl arall yn y dyfodol - yn enwedig ffilm 'action' neu comedi."

**Acenion**
"Dwi'n ofnadwy o falch bod y cwmni teledu tu ôl i Under Salt Marsh wedi sicrhau bod acenion y Gogledd yn authentic a bo nhw wedi castio fi - a Jack Thomas-Humphreys o Flaenau Ffestiniog fel Cefin (yr hogyn sy'n cael ei lofruddio a ffrind gorau James). Mi na'th Jonathan Pryce neud acen Gogledd yn y gyfres fyd. Pan ti'n gofyn I rhywun tu allan i Gymru neud acen Cymraeg ma nhw wastad yn neud acen o'r De... ond dwi'n falch o fod wedi gallu dangos bod acenion eraill yma yng Nghymru...yn enwedig acen Pesda!"

Wel dyna chi wedi cael golwg tu ôl i'r llenni fel petai drwy lygaid Osian. Am brofiad arbennig. Gwych iawn a diolch am eu rhannu gyda ni. Pob dymuniad da i'r dyfodol i ti Osian. Cofiwch yr enw!


**CHRIS GRIFFITHS CYF**

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB



☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

**Mark Davies**
07447804110

Peirianydd Carafan Teithiol
MD Caravans

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

mark@mdcaravans.cymru

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Cyrsiau Byr a Datblygiad Proffesiynol
Short Courses and Professional Development

**Ystyried dysgu rhywbeth newydd?**


- Dysgu Cymunedol
- Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol
- Cyrsiau pwrpasol I fusnesau
- Darlithoedd cyhoeddus

**Cysylltwch!**
cyrsiaubyr@bangor.ac.uk
01248 382 875
https://www.bangor.ac.uk/cy/cyrsiau-byr-a-dpp

# Colofn Chwedl a Choel: Rhifyn 11

Gan **Howard Huws**

**Dyma ragor o straeon am ryfeddodau'r Fro!**



Corrach Llyn Ogwen

**Y Peth wrth Lyn Ogwen**
Dyma hanes gan Yvonne Houghton (Hughes, gynt), sy'n byw yn Sowerby Bridge, Gorllewin Swydd Efrog, bellach.

"Tua 1980 oedd hi, pan oeddwn yn y coleg yn Kidderminster a Birmingham. Arferai fy rhieni, chwarae teg iddyn' nhw, ddod i'm nôl i pan ddymunwn ddod adref i Fangor, s ac ar un o'r teithiau hynny y gwelais yr hyn a welais.

Y ffordd gyntaf adref, yr adeg honno, oedd yr A5; ac un noson, wedi hanner nos, 'roeddem ni'n gyrru heibio i ben Lyn Ogwen i gyfeiriad Bangor. Fy nhad oedd wrth y llyw, finnau yn y sêt flaen arall, a'm mam yn cysgu ar y sêt gefn. Wrth inni ddod heibio pen Llyn Ogwen, dyma fi'n gweld, yng ngoleuadau'r car, rhywbeth ofnadwy o ryfedd.

Yr oedd rhywun yn sefyll â'i gefn at y wal gerrig sydd rhwng y lôn a'r llyn. Yr oedd yn ogyfuwch â'r wal, sef rhyw lathen o daldra, ac yn gwisgo mantell neu glogyn llwyd amdano, un laes at ei draed, a chap llwyd am ei ben, cap mymryn yn bigfain. 'Roedd blaenau esgidiau o ryw fath i'w gweld tan odre'r fantell.

Llathen o daldra, ond nid plentyn: oherwydd yr oedd ei wyneb yn hen, hen, yn rhychiog iawn, efo lwmpyn bach o drwyn, ac esgyrn bochau uchel. Mi welais i o, ac mi welodd yntau finnau, oherwydd er iddo sefyll yn gwbl stond, mi drodd ei lygaid ataf. Ar hynny, dyma fy nhad yn cyffwrdd â'r brêc yn sydyn, ac yn rhoi plwc i'r llyw, fel pe bai'n ceisio osgoi rhywbeth: digon o blwc i ddeffro fy mam o'i thrwmgwsg. "Welaist ti o?" medda' fi wrth fy nhad. "Do, rhywbeth", atebodd yntau: ond ymlaen yr aethom.

Dechreuodd fy mam holi be' goblyn oedd yn digwydd: a dwi'm yn cofio gweddill y sgwrs, ond efallai i un o 'mrodyr agor y drws pan gyrhaeddon' ni adref, ac i Mam ddweud, 'Gwna banad inni: mae'r ddau yma'n dechra' gweld y bliws.'

Ddaru imi ddim siarad â fawr neb am y peth ers hynny, ond dwi'n dal i bendroni amdano, weithiau. Pwy oedd o? (A 'fo' oedd o, nid 'hi', dwi'n sicr.) Pwy fyddai'n sefyll wrth wal Llyn Ogwen yr adeg honno o'r nos? 'Doedd o ddim yn gerddwr nac yn ddringwr: 'doedd ganddo mo'r gêr. 'Roedd o faint plentyn, ond ag wyneb hen ŵr. 'Tydw i ddim yn gwybod am unrhyw un arall a welodd ddim o'r fath. 'Roedd o'r peth tebycaf i ryw gorrach, neu ella' un o dylwyth teg yr hen straeon: ond 'tydi pethau felly ddim yn bod......nac ydyn'?

Sawl blwyddyn sydd ers hynny? Deugain a rhagor: a digwydd siarad efo'r ferch a'i chariad oeddwn i, y noson o'r blaen, am ysbrydion a'r goruwchnaturiol a phethau, pan ddaeth y digwyddiad yn ôl i fy nghof. A dyma fi'n penderfynu tynnu llun o'r hyn welais i, a dyma fi rŵan yn rhannu hwnnw a'r hanes efo chi, ofn rhag y gallwch chi gynnig esboniad."

---

**Y Peth wrth Bont Coetmor**
Un gyda'r nos tua 1970 oedd hi, tua hanner awr wedi chwech, ar yr adeg o'r flwyddyn pan yw'n tywyllu erbyn hynny, a'r tywydd yn wlyb ac yn niwlog. Roedd Margaret Pritchard, Tregarth yn gyrru'i char o gyfeiriad Brynbela at Bont Coetmor, a Janet ei merch (Hughes, erbyn hyn) efo hi yn y sedd flaen. Yn sydyn, wrth iddynt gyrraedd y bont, dyma rhywbeth yn symud yn gyflym o'u blaenau nhw, ar draws y lôn, o'r chwith i'r dde.


Pont Coetmor

Fel y cofiodd Janet wrth siarad â mi'r llynedd, roedd o'n rywbeth anodd iawn ei ddisgrifio. Roedd yn o fychan, tua maint ci dachsund, ond 'doedd yna ddim cynffon na choesau i'w gweld. Dim llygadau, ychwaith, ond fel dau olau ar ben blaen tebyg i ... i beth? Yr oedd Janet yn ei gael yn anodd ei ddisgrifio: rhywbeth fel hidlwr, fel sydd gan rywun yn y gegin, efo trwyn hirgrwn, fel simnai lamp oel hen ffasiwn. 'Doedd o ddim yn debyg i ddim cyfarwydd, byw.

A'r peth rhyfeddaf oedd ei osgo: dau gam ymlaen, un at yn ôl, dau gam ymlaen, un at yn ôl, yn gyflym, nes iddo groesi'r lôn a mynd o'r golwg. Edrychodd o ddim arnyn' nhw: dim ond mynd syth ymlaen.

Gyrrodd Margaret Pritchard adref, ond roedd Janet a hithau wedi cael braw ofnadwy a arosodd efo nhw am ddiwrnodau. Ofnai Janet fynd yn agos at y lle wedyn am yn hydion. Bu rhai yn dweud wrthynt, "Mae'n rhaid mai ci neu gath oedd o", ond mae hi'n parhau'n sicr nad oedd o ddim, ddim yn ei ffurf na'i symudiad.

Os oes gan unrhyw un o'n darllenwyr ragor o straeon am fwganod yn y fro, yna byddai Howard yn falch iawn o glywed gennych. Gallwch gysylltu gyda Howard trwy anfon neges ato yn cyfarchiad@yahoo.co.uk neu ei ffonio ar 07748 495537.

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**
mairpenybryn@gmail.com
01248 352966

**Cylch Glasinfryn**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cylch ar 11 Chwefror yn y Ganolfan gyda phob aelod yn bresennol! Cyflwynodd Jocelyn Bowen yr Adroddiad Blynyddol gan sôn am yr amrywiol gyfarfodydd diddorol a difyr a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Cafwyd yr adroddiad ariannol gan Carole Singleton y Trysorydd, a braf oedd cael gwybod nad oeddem yn y coch! Diolchwyd i'r ddwy am ei gwaith rhagorol yn ystod y flwyddyn gan y Cadeirydd, Mair Griffiths. Etholwyd y Swyddogion yn unfrydol i aros am flwyddyn arall! Cytunwyd gan bawb i gadw'r tâl aelodaeth blynyddol yn £10 a £2 y cyfarfod i ymwelwyr.

Trafodwyd siaradwyr ar gyfer Rhaglen y flwyddyn, yna fe fwynhaodd pawb gacennau a phaned wedi eu darparu gan Barbara, Carys, Mair, Jocelyn a Carole.

Ar 11 Mawrth byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda chinio a brethyn cartref yn y Ganolfan am 12.30. Ar 8 Ebrill am 2yp bydd aelod o Fanc NatWest yn dod atom i siarad ar "Cadw'n sâff ar y Wê". Croeso cynnes i bawb!

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Megan ac Adam Jones, Coed Heddwch, Caerhun ar enedigaeth eu cyntaf anedig, mab bach, Kyffin. Pob hapusrwydd i chwi i gyd fel teulu.

**Profedigaeth**
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Elizabeth Hughes ar 26 Chwefror yn Ysbyty Gwynedd. Yr oedd wedi byw yng Nglasinfryn rhan helaeth o'i hoes, ond yn byw ym Mro Syr Ifor Tregarth 'rwan. Yn wraig i'r diweddar Brian ac yn fam i Raymond a Iorwerth. Cydymdeimlwn â'i holl deulu a ffrindiau yn eu profedigaeth.

**Bingo Bach**
Cynhaliwyd y Bingo cyntaf o 2026 ar 27 Chwefror yn y Ganolfan. Codwyd £191 gyda'r elw yn mynd at y Ganolfan. Bydd y Bingo nesaf ar 27 Mawrth gyda'r elw yn mynd tuag at elusen Sands, sydd yn cefnogi rhieni sydd wedi colli babi. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad tuag at y noson. 'Roedd sedd wag yn y Bingo nos wener gan i ni glywed am farwolaeth trist Elizabeth Hughes, un o ffyddloniaid y Bingo ers blynyddoedd, prin y byddai yn colli. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu yn eu colled a'u hiraeth.

**Cymdogion Newydd yn Waen Wen**
Croeso cynnes iawn i Tony Hughes sydd wedi dod o Rhiwlas i fyw yn 5 Mount Pleasant, Waen Wen. Cafodd Avril, mam Tony, ei geni a'i magu yn yr ardal, yn ferch i'r diweddar Dafydd ac Edwina Jones, 5 Caerhun.

**Gwaith Dylunydd lleol mewn gwesty ym Metws y Coed**



A oes rhai o ddarllenwyr Llais Ogwan wedi bod yn gwledda yn y Royal Oak ym Metws y Coed yn ddiweddar? Mae'r gwesty wedi adnewyddu y lolfa i ddathlu cyswllt y gwesty â'r wlad a'r diwydiant y maent yn ran ohonni, drwy weithio gyda chrefftwyr talentog lleol. Un o'r rhain yw Anna Pritchard, dylunudd tecstiliau sydd yn byw yn Waen Wen. Anna fu'n gyfrifol am ddylunio y ffabrig gwlan a ddefnyddiwyd i adnewyddu y dodrefn a'r lleni. Mae dyluniadau Anna wedi eu selio ar hen ddulliau ffermio a'r tirluniau Dyffryn Ogwen. Yn y dyluniadau sydd yn lolfa'r Royal Oak mae hi wedi defnyddio y cynllyn "Cribau" ar gyfer y cadeiriau a "Gwellau Nodi" i wneud y llenni ffenestr, ac wrth gwrs mae'r lliwiau yn drawiadol iawn, yn cyfleu cyfoeth lliwiau naturiol y Dyfffryn. Ewch draw am baned i chwi gael gweld y gwaith, mae yn werth ei weld!

# Benthyca'n tyfu ym Methesda!





Wyddoch chi mai nid llyfrau yn unig galle chi eu benthyg o lyfrgell Bethesda? Gellir hefyd benthyg offer i'r cartref neu ardd, gemau a tegannnau a llawer mwy drwy'r prosiect 'Petha' -Llyfrgell Pethau lleol sy'n cael ei arwain gan Bartneriaeth Ogwen. Gellir hefyd hyd yn oed fenthyg car! Mae'r car dan berchnogaeth TrydaNi, ac wedi ei barcio y tu allan I'r llyfrgell – cyfleus iawn!

Ar 7 Chwefror, ymunodd Benthyg Cymru, sy'n gorff sy'n cefnogi llyfrgelloedd pethau ar draws Cymru, hefo TrydaNi i arddangos yr amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael i'r gymuned.

Yn ôl Angharad Griffiths, sy'n gweithio i Fenthyg Cymru, ac hefyd yn byw ym Methesda:

"Roedd y digwyddiad diweddar ym Methesda gyda Benthyg Cymru, Petha Pesda a'r cynllun rhannu ceir TrydaNi yn gyfle gwych i ddathlu'r hyn sy'n gwneud ein cymuned mor arbennig. Rydym yn hynod ffodus yma i gael llyfrgell pethe, cynllun rhannu ceir a chaffi trwsio! Mae rhain i gyd yn chwarae rhan allweddol mewn adeiladu economi gylchol gref sy'n helpu pobl i arbed arian, lleihau gwastraff, gofalu am y blaned ac, yn bwysicaf oll, dod â phobl at ei gilydd"

"Mae Petha Pesda wedi bod yn rhan o'r gymuned ers 4-5 mlynedd, ac mae'n cynnig ystod anhygoel o eitemau i'w benthyg - o lanhawyr carpedi a gemau bwrdd i beiriannau hufen iâ a pheiriannau gwnïo. Gyda chymaint o dai chwarel bach yn yr ardal, gall storio fod yn her fawr, felly mae'r llyfrgell yn ateb perffaith, ymarferol sy'n cefnogi bywyd bob dydd ac yn cryfhau'r gymuned leol."

Yn yr un lleoliad, mae TrydaNi wedi gweld cynnydd mawr mewn aelodau yn y dyffryn dros y chwe mis diwethaf, gyda'r niferoedd ychwanegol hyn wedi caniatáu treialu car ychwanegol ger y llyfrgell. Yn ogystal, mae Clwb Bethesda wedi gosod y record am ddefnydd dros Gymru yn yr Hydref! Mae'r ceir yn cael eu defnyddio am amrywiaeth o resymau – o fynd I siopau ym Mangor, i wyliau dros nos, neu deithio am resymau gwaith a hawlio'r gôst yn ôl. Mae rhai aelodau wedi cael gwared o'u hail gar, ac wedi arbed arian! Mae cyfrifiannell ddefnyddiol ar wefan TrydaNi sy'n galluogi cyfrifo côst unrhyw daith:
www.calculator.trydani.org

Mae'r ddwy sefydliad yn dangos sut mae gwasanaethau cymunedol yn gweithio ochr yn ochr, gan greu cyfleoedd newydd i bawb a hyrwyddo rhannu a chynaliadwyedd yn y gymuned.

Ymunwch am ddim heddiw!
TrydaNi / Clwb Car Bethesda: https://www.trydani.org/cy/join
Petha Pesda - Llyfrgell Pethau Bethesda : www.partneriaethogwen.cymru/cy/prosiectau/llyfrgell-y-petha

## Gwerthiant yn ardal Maes Ogwen, Tregarth

Mae Pwyllgor Llais Ogwan yn ceisio darganfod pwy oedd yn derbyn copïau o'r Llais gan y diweddar Fonheddwr Fred Buckley yn ardal Maes Ogwen, Tregarth. Byddem yn ddiolchgar pe byddai'r pobl a oedd yn derbyn copi yn cysylltu gyda'r:

Ysgrifennydd: Gareth Llwyd
Ffôn: 07887 667956
e-bost: garethllwyd197@btinternet.com

er mwyn i ni sicrhau eich bod yn derbyn copi o rifyn mis Chwefror.

'Rydym hefyd yn chwilio am rhywun i werthu'r Llais yn y dyfodol. Byddem yn falch iawn o glywed gennych os gallwch gynorthwyo gyda'r orchwyl hon. Mae ein gwerthwyr yn ceisio cael pawb i dalu am y flwyddyn fel bod modd rhoi copi trwy'r blwch llythyrau pob mis.

Cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd os gwelwch yn dda. Diolch am eich cydweithrediad.


ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*

Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01286) 672437 | Pwllheli (01758) 703000


## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

---

Penblwydd hapus hwyr i Val Hayward Bro Derfel. Roedd Val yn dathlu Penblwydd arbennig ym mis Ionawr

**Cartref newydd**
Croeso mawr i Manon Elwyn a'i gŵr Ifan Owens i'w cartref newydd Cae Derwen, Tregarth. Ymddiheuriadau mawr fod y newyddion yma mor hwyr yn cyrraedd y Llais. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn y pentref.

**Cydymdeimlo**
Ym mis Ionawr bu farw Tomasina Bates neu Tomi Pandy fel oedd pawb yn ei adnabod ar ôl gwaeledd hir a chas. Roedd yn fam i Pedr, Iona, Naiomi a Danny ac hefyd yn nain. Pob cydymdeimlad i'r teulu.

Daeth profedigaeth i ran Vivienne a John Cliff, Tal y cae, ar Chwefror 3. Bu farw brawd Vivienne, sef Gareth Jones, Pant Glas, Bethesda yn Ysbyty Gwynedd. Pob cydymdeimlad i chi fel teulu.

Ar Ionawr 30, yng Nghartref Gofal Meddyg, Cricieth, bu farw Rheinallt Jones, yn 86 oed, o 15 Elfed Terrace, Bethesda a gynt o Erw Faen, Tregarth. Roedd yn briod â'r diweddar Helen, yn dad i Brian a Gwenda ac yn Daid a Hen Daid annwyl. Bu ei angladd ym Mynwent Coetmor ar Chwefror 17 a chydymdeimlwn gyda chi fel teulu.

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**
Nos Lun croesawodd llywydd y gangen, Carys Dafydd, y nofelydd a'r ymgyrchydd iaith, Angharad Tomos, Penygroes, atom i sgwrsio am ei nofel 'Castell Siwgwr'. Mae cefndir y nofel yn ymwneud â theulu Castell y Penrhyn a chawn hanes dwy ferch ifanc yn y nofel, sef un o Feirionnydd a'r llall o Jamaica, y ddwy yn gysylltiedig â theulu Douglas Pennant. Un yn forwyn yn Castell Penrhyn a'r llall yn gweithio mewn planhigfa siwgwr yn Jamaica oedd yn rhan o blanhigfeydd teulu'r Penrhyn. Diddorol dros ben oedd gwrando ar Angharad yn sôn am y gwaith ymchwilio a wnaed i gefndir y nofel a pha mor anodd oedd bywoliaeth y ddwy ferch a'u teuluoedd.

Noson ardderchog yng nghwmni llenor o fri a braint i bawb oedd bod yn rhan o'r noson.

Ar Fawrth 2il bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Nglwb Rygbi, Bethesda, am swper ac adloniant gan Hogia'r Bonc.

Bydd un o ferched y pentref, Shan Robinson, yn wraig wâdd y gangen Nos Lun, Ebrill 13, yn Festri capel Shiloh Newydd am 7.30 a thestun ei sgwrs fydd 'Merched Dyffryn Ogwen'. Mae Shan yn gweithio ym Mhrifysgol Bangor fel hanesydd yn yr Archifdy. Dewch i gefnogi'r gangen ac i fwynhau noswaith ddifyr!

**PWYSIG**

**NEWID DYDDIAD**
Perfformiad dan arweiniad
Trystan Lewis
o
**Y CROESHOELIAD**
gan John Stainer
yn Capel Shiloh Newydd, Tregarth
**Nos Wener, Mawrth 27**
am 7 o'r gloch
Croeso i bawb

## Capel Shiloh Newydd Tregarth

Cofiwch am yr oedfaon yn Shiloh am 5 o'r gloch pob Sul oni nodir yn wahanol.
Mawrth 22 – Dr Ian Morris (cymun)
Mawrth 29 – Ffion Rowlinson (Sul y Blodau)
Ebrill 5 – Cledwyn Williams, Bangor (Sul y Pasg)
Ebrill 12 – Dr Aled Griffiths, Llanfairpwll
Ebrill 10 – Robert Morris, Penygroes
Ebrill17 – Dr Ian Morris

Gwellhad buan i un o flaenoriaid Shiloh, sef Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, sydd ar hyn o bryd yn Ward Tudno, Ysbyty Gwynedd. Pob dymuniad da i Eirwen a brysia nôl atom i deulu Shiloh.

Anfonwn ein cofion cynnes at ein cyn weinidog , sef y Parchedig Philip Barnett, yn Swydd Efrog , sydd ddim yn rhy dda ei iechyd ar hyn o bryd. Cofion annwyl ato ef a Catherine gan obeithio y cawn ei groesawu yn fuan eto i'r oedfaon yn Shiloh.

Pnawn Sul, Chwefror 1, dan arweiniad Dr Jennie Hurd, bedyddiwyd Gruff Twm, mab bychan Heledd a Chris . Llanelwy, Mae Heledd wedi'i magu yn Rhiwlas ac mae ei mam yn aelod yma, sef Rhian Evans- Hill. Oedfa hyfryd yng nghwmni Gruff a llawer o'r teulu yn rhan o'r gynulleidfa . Braf iawn oedd cael gwasanaeth bedydd unwaith eto yn Shiloh Newydd.

Mae Drws Agored yn y capel bob bore Gwener, rhwng 10 a 12 o'r gloch. Mae'n gyfle ardderchog i gyfarfod a chael sgwrs ac i gyfrannu tuag at achosion lleol. Yn yr wythnosau diwethaf anfonwyd £100 yr un tuag at Elusen Dr Barnado ac i Gyfeillion Ysbyty Eryri, Caernarfon. Diolch i bawb sydd yn ymuno ar fore Gwener.

Mae Bocs Bwyd yn y cyntedd a diolch o galon i bawb sydd yn cyfrannu tuag at Banc Bwyd Bethesda.

# YSGOL TREGARTH

### Croeso
Croeso arbennig i Miss Ela Jones atom. Mae wedi cychwyn gyda ni ddiwedd mis Chwefror fel cymhorthydd ac mae'n cefnogi yn nosbarth Y Garn. Gobeithio y byddi'n hapus iawn yma gyda ni yn Nhregarth Ela a chroeso i ti.



### Diwrnod sgiliau
Yn ystod ein hanner tymor cyntaf yn ôl yn dilyn y gwyliau Nadolig bu plant blwyddyn 4 a 5, dosbarth y Garn yn gweithio'n galed iawn yn cynllunio, paratoi ac yna cyflwyno diwrnod sgiliau i blant yr ysgol gyfan. Ffocws y plant oedd creu gweithgareddau oedd yn datblygu amrywiaeth o sgiliau gwahanol fyddai'n ddefnyddiol iddynt ym myd gwaith e.e. datrys problem, cydweithio a chyfathrebu, yn seiliedig ar ein thema 'Sut i lwyddo ym myd gwaith?'. Cafodd y plant gyfle i fynd o gwmpas y gweithgareddau eu hunain cyn mynd ati i arwain y gweithgareddau i blant yr ysgol i gyd. Roedd yn ddiwrnod gwerth chweil gydag ymatebion arbennig gan blant a staff yr ysgol yn canmol eu hymdrech yn ystod y diwrnod. "Da iawn chi Dosbarth y Garn, dylech chi fod yn falch iawn o'ch hunain a'r gwaith gwych rydych wedi wneud i gynnal diwrnod mor llwyddiannus" - Mr Owen




### Dydd Miwsig Cymru
Cafodd disgyblion dosbarth Yr Elen ddiwrnod llawn hwyl wrth ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Bu'r plant yn recordio podlediad arbennig lle roedden nhw'n cael cyfle i fynegi barn am eu hoff ganeuon Cymraeg ac esbonio pam eu bod mor hoff ohonynt. Cafwyd trafodaethau difyr am amryw o artistiaid a bu'r disgyblion yn sôn am bwysigrwydd Cymru a'r Iaith Gymraeg iddyn nhw.

Yn ogystal â recordio podlediad, bu'r plant yn cydweithio i greu baner lliwgar ar gyfer Dydd Miwsig Cymru. Defnyddiwyd amrywiaeth o gyfryngau celf i'w haddurno a cafodd ei llenwi â symbolau Cymreig megis y ddraig goch a'r genhinen. Roedd y canlyniad yn arddangosfa hyfryd o greadigrwydd a balchder Cymreig.

### Diwrnod diogelwch y we
Yn ystod y mis hwn, buom yn dathlu Diwrnod Diogelwch y We yn nosbarth Yr Elen. Bu'r plant yn dysgu am bwysigrwydd peidio rhannu gwybodaeth bersonol ar-lein, fel eu henw llawn, cyfeiriad na chyfrineiriau.

Roedd y trafodaethau'n aeddfed iawn, a llwyddodd y plant i roi rhesymau clir pam fod cadw gwybodaeth yn breifat yn eu helpu i gadw'n ddiogel. Roedd yn amlwg fod pawb yn deall mor bwysig yw hi i fod yn gyfrifol ar-lein.

### Ymweliad blwyddyn 4 - Ysgol Dyffryn Ogwen
Cafodd plant Blwyddyn 4 cyfle arbennig i dreulio amser yn Ysgol Dyffryn Ogwen i gael blas ar fywyd ysgol uwchradd. Bu'r plant, yn eu grwpiau, yn mynd i amrywiaeth o weithgareddau gwahanol yn ystod y bore. Bu cyfle i wneud gweithgaredd algorithm ble roedd angen creu cyfarwyddiadau amrywiol, yn gorffen wrth orfod darganfod dosbarth penodol o fewn yr ysgol ac yna creu cyfarwyddiadau manwl i gyrraedd y dosbarth hwnnw. Yn ogystal â hyn, bu cyfle i droi eu dwylo at ychydig o goginio. Bu'r plant yma yn dilyn cyfarwyddiadau manwl er mwyn creu cacennau llus. Blasus ofnadwy. Diolch yn fawr i Ysgol Dyffryn Ogwen am y croeso cynnes. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ofnadwy o gyffrous i ddod yn ôl atoch yn fuan iawn.



### Cystadleuaeth Sportshall
Bu criw o blant blwyddyn 5 a 6 draw ym Mhlas Silyn ar gyfer cystadleuaeth athletau dan do. Yn ffodus iawn cawsom fynd â 2 dîm i'r gystadleuaeth, gyda'r ddau dîm yn rhoi cant y cant ym mhob rhan o'r diwrnod ac wedi ymddwyn a chynrychioli Ysgol Tregarth yn wych.




L. STURRS
A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

MODURDY
FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

# CHWILAIR



## NOFELAU JOHN ALWYN GRIFFITHS

Yn y Chwilair mis yma mae teitl deuddeg NOFEL JOHN ALWYN GRIFFITHS i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

MAE Y GAIR **DAN** I'W WELD AR DDECHRAU POB TEITL OND NID WYF WEDI CYNNWYS Y GAIR YMA YN Y CHWILAIR, DIM OND YN Y CLIW, RHAG EICH DRYSU YN ORMODOL.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 27 Mawrth. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Rwyf yn ddiolchgar i Geraint Williams, Llansadwrn, am awgrymu'r testun i mi y mis yma.

Diolch hefyd i Colin Davies, Blaenau Ffestiniog, am anfon atebion mis Chwefror i fewn ac am ei eiriau caredig.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | V | S | H | E | I | M | G | V | D | H | M | D | W | H | U | Z | M | X | V |
| A | D | R | W | D | Y | D | N | D | A | E | I | A | D | A | I | N | Y | P | A |
| U | Q | U | S | O | F | R | Y | G | A | M | S | Y | N | I | A | D | R | P | Y |
| Q | Z | G | R | H | C | L | U | M | W | N | L | O | Y | R | I | A | W | S | Z |
| U | T | F | D | X | A | U | P | W | R | H | A | C | Q | H | W | E | Y | H | O |
| Y | E | E | G | N | **D** | E | O | M | H | E | W | P | T | T | C | B | N | B | C |
| U | U | J | W | P | L | **E** | T | M | I | V | R | V | D | C | B | B | E | F | R |
| F | O | A | G | J | V | I | **O** | I | R | R | D | X | I | M | H | T | B | T | O |
| H | D | S | K | O | P | W | R | **C** | N | C | I | M | K | C | B | O | R | C | X |
| T | V | R | Y | H | S | T | M | O | **Y** | R | A | E | F | Y | J | D | Z | H | B |
| E | C | W | O | S | C | R | D | A | I | **D** | F | X | N | I | L | X | J | J | M |
| A | B | W | T | E | X | Y | M | D | X | K | **O** | F | U | P | C | Q | Y | O | I |
| U | L | F | E | R | N | Z | Q | U | R | O | L | **G** | C | T | D | G | W | S | L |
| E | Z | E | B | Y | E | A | D | J | K | J | C | L | **S** | N | L | R | V | O | G |
| H | J | P | W | W | P | L | G | S | O | W | J | J | Q | **Y** | U | L | F | S | V |
| M | T | E | X | E | W | U | G | H | B | W | Y | S | A | U | **G** | A | L | Z | E |
| A | A | F | X | M | I | W | T | Z | H | K | V | A | G | B | N | **N** | K | A | D |
| S | I | K | W | F | Y | G | Y | T | H | I | A | D | O | G | D | H | **A** | B | S |
| I | U | G | R | O | X | A | G | X | R | A | E | E | K | K | D | A | N | **D** | T |

**Dyma atebion Chwilair Chwefror**: Ceiliog bach y dandi; Cwyd Dafydd bach; Dacw mam yn dŵad; I fewn i'r arch â nhw; Gee ceffyl bach; Mi welais jac y do; Myfi sy'n magu'r baban; Oes gafr eto; Pwsi Meri Mew; Robin goch; Si hei lwli 'mabi; tasa gen i ful bach.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir**: Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Doris Shaw, Stryd Fawr, Bethesda; Mrs M. A. Jones, Yr Ynys, Llanllechid; Judith Hughes, Llangoed; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Carys Parry, Caerhun; Rosemary Williams, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Dewi Lewis-Jones, Llandegfan; Olive Williams, Maes-y-Garnedd; Gwen Davies, Bethesda; Heulwen Roberts, Bethesda.

**Enillydd Chwefror oedd**: Mrs M. A. Jones, Awelon, Yr Ynys, Llanllechid, Gwynedd, LL57 3ED.


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

cynghorydd. Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru — 07765 400140 — Arllechwedd

cynghorydd. EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru — 07747 690456 — Gerlan

cynghorydd. Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru — 07789 742092 — Canol Bethesda

cynghorydd. Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru — 07436 927237 — Tregarth & Mynydd Llandygai

cynghorydd. Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru — 07949 034967 — Rachub



# Natur o'n Cwmpas

## Cennin a Chennin Pedr

**Cenhinen**

Fel y gwyddoch, mae gennym ni'r Cymry ddau arwyddlun cenedlaethol – y genhinen a'r genhinen Bedr – ac mae dathlu Gŵyl Ddewi, sef y 1af o Fawrth, yn gyfle i'w harddangos mewn sawl dull a modd.

Beth am y genhinen? Fel hyn y canodd y bardd Eifion Wyn i'r arferiad o'i gwisgo ar achlysur cofio ein nawddsant:

Os wyt Gymro hoff o'th wlad,
A hoff o'th dadau dewrion,
Cadw ŵyl er mwyn dy had -
Ni waeth beth ddywed estron -
Gwisg genhinen yn dy gap,
A gwisg hi yn dy galon.

Mae'n ymddangos bod gwisgo cenhinen yn hen arferiad gan fod Shakespeare yn cyfeirio ati yn ei ddrama *Henry V* yn 1598. Yn y ddrama, mae'r brenin yn dweud wrth Llywelyn (Fluellen) ei fod yn gwisgo'r genhinen gyda balchder 'gan ei fod yn Gymro'. Hefyd, mae cyfeiriad yn 1537 at y dywysoges Mary Tudor, merch Harri VIII, a oedd o dras Gymreig, yn derbyn cennin gan iwmyn y gard, sef gwarcheidwaid y brenin, i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi.

Mae lliwiau gwyrdd a gwyn y genhinen yn cydweddu â'r rhai a welir ar gefndir baner y ddraig goch. Dyma oedd lliwiau'r lifrai a wisgai milwyr Cymreig Edward I, brenin Lloegr, yn Fflandrys yn 1297, ac yn ddiweddarach gan filwyr Cymreig byddin Edward y Tywysog Du ym Mrwydr Crécy yn 1346-47.

Ceir sawl cofnod o ddefnyddio'r genhinen yng Nghymru fel cynhwysyn coginio, gyda chenin cennin yn bryd hynod boblogaidd. Roedd hefyd draddodiad fod i'r planhigyn rinweddau meddyginiaethol. Credir bod Meddygon Myddfai o Sir Gaerfyrddin yn yr Oesoedd Canol yn ei ddefnyddio i iachău nifer o afiechydon.



Dywedid ei fod yn gwella annwyd, yn fodd i amddiffyn y corff drwy liniaru effeithiau clwyfau mewn rhyfel, ac yn cynorthwyo merched wrth roi genedigaeth.

**Cenhinen Bedr**

Blodyn poblogaidd iawn yw'r genhinen Bedr, a bydd edrych ymlaen bob amser at weld clystyrau lliwgar yn y gerddi ac ar hyd ochrau ffyrdd a theimlo bod y gwanwyn yn dod. Mae lliwiau'r blodyn yn amrywio – efo'r corona, sef ei ganol, a'i betalau yn medru bod o wahanol arlliwiau o felyn, melyngoch a hufen, yn ogystal â gwyn.

Mor ddiweddar â'r 19eg ganrif y daeth y genhinen Bedr yn gysylltiedig â Dydd Gŵyl Ddewi, ac mae rhai o'r farn fod dryswch wedi bod efo'r ddau enw gan eu bod mor debyg. Nid oes sicrwydd chwaith sut y daeth yr enw Pedr yn rhan o enw'r planhigyn hwn. Fodd bynnag, rhoddodd David Lloyd George amlygrwydd i'r genhinen Bedr drwy ei gwisgo yn arwisgiad Edward V111 yn Dywysog Cymru yn 1911.

O achos y blodyn heulog ei liw, daeth y genhinen Bedr yn fwy poblogaidd na'r genhinen fel ein harwyddlun cenedlaethol. Cafwyd darlun hyfryd ohoni gan I.D. Hooson ym mhennill cyntaf ei gerdd 'Daffodil':


Fe'th welais di ar lawnt y plas,
A gwyntoedd Mawrth yn oer eu min;
Ar feysydd llwyd a gweirglodd las,
Ac awel Ebrill fel y gwin;
Ni welwyd un erioed mor llon,
Â'th fantell werdd a'th euraid rudd,
Yn dawnsio yn y gwynt a'r glaw
I bibau pêr rhyw gerddor cudd.

Mwynhewch y grym melynlliw pan ddaw i'w anterth. Bydd yr olygfa yn wledd i'r llygad.

---

Daw peth o'r wybodaeth uchod o wefan cymruhanes BBC Cymru.

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.



MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Llongyfarchiadau anferth!**

Mae Lauren Jones, 27 Bro Emrys, wedi cael ei dewis i fod yn rhan o Garfan Beldroed Genethod Ysgolion Cymru o dan 16 oed. Dim ond deunaw o enethod gafodd eu dewis allan o 400 o ymgeiswyr. Mae hi wedi cyflawni camp aruthrol, a rydan ni'n falch iawn o'i llwyddiant. Mae Lauren yn chwarae'n rheolaidd i dîm Llandudno, ac yn eu helpu i gadw eu lle ar ben Cynghrair Genethod o dan 17 Gogledd Cymru.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Teddy Lloyd, 12 Dolhelyg, sydd wedi cael ei dderbyn gan Academi Pêldroed Wrecsam, i hyfforddi gyda'r Garfan dan 9 oed.

Teddy, rydan ni i'n falch o glywed am dy lwyddiant dithau. Bydd yn brofiad gwych iti. Pob lwc i'r dyfodol.

Gymnast ydi Hattie, ei chwaer fawr. Mae hi'n aelod brwd o Glwb 'Dreigiau'r Dyffryn' ac yn hyfforddi'n galed ar gyfer cystadleuthau'r Gwanwyn.

Dymunwn yn dda i Macey, 70 Bro Emrys, sydd hefyd wedi dechrau ymarfer gyda'r Clwb gymnasteg. Yn yr oes ddigidol hon, braf iawn yw clywed am blant a phobl ifanc y pentref yn rhagori mewn campau corfforol.



**Penblwydd arbennig**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Eirlys Ellis,' Amora', Bro Emrys a ddathlodd ei phenblwydd yn bedwar ugain ar Ddydd Sant Ffolant. Dymunwn bob bendith a'r iechyd gorau posibl iti, Eirlys, a diolchwn am dy garedigrwydd a'th haelioni tuag atom i gyd.

Mae Eirlys yn dymuno diolch o waelod calon i'w theulu; ei chymdogion amhrisiadwy, a'i ffrindiau i gyd ym mhob man am eu hanrhegion hael, am flodau prydferth lond y tŷ, a'r holl gardiau a chyfarchion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd arbennig. Cafodd ddiwrnod i'w gofio a'i drysori am byth.

**Brysiwch wella**

Wrth imi anfon dymuniadau am wellhad, byddaf wastad yn ymwybodol imi adael rhywun allan. Ffrindiau Talybont a'r fro, rhowch wybod imi, os gwelwch yn dda, os oes gennych rywun yn yr ysbyty, neu'n sâl gartref, inni gael cofio amdanynt. Neges fach ar WhatsApp ydi'r cyfan sydd angen: y rhif yw 07765600822

Yn y cyfamser, cofiwn yn annwyl at Sheila, 'Millbank', Dolhelyg, sydd adref o'r ysbyty ac yn gwella'n dda, ac at bawb arall sydd heb fod yn ei lawn hwyliau.

**Cystadleuaeth drwy wahoddiad**

Ar ddydd Sul, Chwefror 22 ain, gwahoddwyd aelodau nifer o glybiau gymnasteg Gogledd Cymru i Fangor i gymryd rhan mewn cystadleuaeth.

Perfformiodd Avaya, 33 Bro Emrys, yn wych a llwyddo i ddod adref efo chwech o fedalau .

Ardderchog, Avaya, pob llwyddiant iti i'r dyfodol.

**Bywyd newydd ym Mro Emrys**

Mae tri babi newydd wedi cyrraedd Bro Emrys yn ddiweddar.

Cafodd Maeve, merch fach Phoebe a Richard, rhif 17, ei geni ar Ragfyr 10fed, ac ymddiheuraf am beidio sôn amdani cyn hyn. Dymunwn bob bendith i'r teulu bach. Rydw i'n siwr bod Nain a Taid, Helen a Stephen, wrth eu bodd yn cael cwmni Maeve. Mae eu hwyres, Freya, a'i brodyr iau, Joel a Deion, yn byw yn rhif 25, 'mond tafliad carreg oddiwrthynt. Braf ydi cael y teulu wrth law.

Ers mis Ionawr, mae Luna, 7 oed, o rif 28, wedi dod yn chwaer fawr i Eliot, mab bychan Aaron ac Angharad. Mae hi wedi gwirioni efo'i brawd bach, ac wrth ei bodd yn ei ddangos i bwy bynnag ddaw heibio. Mae'r ddau blentyn yn ddigon o ryfeddod.

Yn rhif 7, mae James a Donna wedi cael merch fach, Ela.

Saith oed ydi Trystan, ei brawd mawr. Bydd ganddo yntau waith gwarchod gyda hyn.

Pob bendith arnynt i gyd . Mae un peth yn sicr, 'fydd y plantos byth yn brin o ffrindiau i chwarae efo nhw.

Tra'n trafod babanod newydd, rhaid llongyfarch Ruth Fawcett ar ddod yn hen-nain am y seithfed tro. Ar Chwefror 16eg ganed merch fach, i'w hwyres, Charlotte a'i chymar Kieran. Cawn wybod ei henw yn nes ymlaen. Mae Charlotte yn un o naw o blant i Mark a Suzanne, merch ieuengaf Ruth.

Edrychwn ymlaen at weld y fechan pan ddaw ar ymweliad i Ddolhelyg.

Llongyfarchiadau cynhesaf i Sian Pritchard , 4 Cae Gwigin, ar ddod yn Nain am y tro cyntaf. Ar Ionawr 5ed. ganed Now Meilir i Ioan a Cadi, merch Sian, sy'n byw yng Nglanffrydlas, Bethesda. Mae hen-fodryb Rhian a Modryb Cara,75 Bro Emrys, wrth eu bodd efo'u nai bach newydd.

**Profedigaethau**

Cydymdeimlwn yn ddwys â John a Maggie Baston a'r teulu, 56 Bro Emrys. Yn dilyn cystudd hir, bu farw Emlyn Williams, brawd-yng -nghyfraith John; gŵr annwyl ei ddiweddar chwaer, Joan, a hunodd y llynedd. Mae'r teulu yn ffarmio Hirdre Isaf, Edern. Cofiwn atynt i gyd yn eu hiraeth.

Mae Anne Williams (Anne B.T.) 55 Bro Emrys, hefyd mewn profedigaeth. Hunodd ei brawd-yng-nghyfraith yn Ysbyty Eryri. Bu Richard (Dic) Thomas yn gweithio efo B.T. Un o hogia' Hirael oedd Dic, ac yn gymeradwy gan bawb a'i adnabu. Yr oedd yn ŵr gofalgar i Brenda, chwaer Anne, a fu farw y llynedd. Anfonwn gydymdeimlad dwysaf at Anne a'i theulu ar adeg drist iawn.

**Aduniad**

Braf oedd gweld hogiau Karen, 69 Bro Emrys, gartref i ddathlu'r Nadolig. Mae'n anodd credu bod dwy flynedd a hanner wedi pasio ers i Jake hel ei bac a hedfan i Awstralia. Cawsant amser hyfryd efo'i gilydd, ond yr oedd tristwch yn gymysg â'r llawenydd.

Ar Ionawr 7fed, yn Ysbyty Gwynedd, yn dilyn cyfnod hir o waeledd, bu farw eu tad, Colin Anderson, ac yntau 'n ddim ond 49 oed. Erbyn hyn, mae Jake wedi dychwelyd i Awstralia; Corey wedi mynd yn ôl i Brifysgol Caerdydd a Sam yn brysur yn rhedeg ei fusnes. Estynnwn gydymdeimlad dwysaf atynt yn eu colled fawr.

Ogwen
Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Mawrth 22: Parchg. Anna Jane Evans.
Mawrth 29: Parchg. John Pritchard.
Ebrill 05: Oedfa'r Pasg.
Ebrill 12: Parchg. Olaf Davies.
Ebrill 19: Parchg. Eric Jones.
Ebrill 26: Parchg. John Pritchard.

Croeso cynnes i bawb.

**Gyrrwr newydd**
Llongyfarchiadau i Ben, mab ieuengaf Phil a Pauline, 29 Bro Emrys, ar basio ei brawf gyrru ar y cynnig cyntaf. Dymunwn oes o yrru'n ddiogel a di-bryder iti, Ben. Rydw i'n siwr y byddi'n yrrwr gofalus a meddylgar. Mae angen llawer mwy o'r rheiny ar y lonydd y dyddiau hyn.

**Taith fawr!**
Mae Liz Watkins, Ponc Lôn yn treulio tair wythnos yn Seland Newydd yng nghartref teulu ei chefnder, sydd wedi symud yno o Awstralia. Bu'n edrych amdanynt fwy nac unwaith yn yr hen gartref, ond eleni cafodd gyfle gwych i adnabod tamaid o Seland Newydd. Er bod y daith yno'n hir, roedd Liz yn edrych ymlaen yn arw at weld y teulu yn eu cynefin newydd. Mae Alan yn edrych ymlaen lawn cymaint at ei chroesawu'n ôl ! Bydd ganddi bentwr o luniau a hanesion di-rif.

**'Beti a'i Phobl'**
Wrth wrando ar y radio ychydig yn ôl, clywais sgwrs ddifyr a diddorol rhwng Beti George a'r gŵr busnes lleol, Geraint Hughes, Cae Mawr, Gatws, neu Geraint Iorcws, fel yr adnabyddir gan lawer.

Mae Geraint yn aelod o'n Cyngor Bro gweithgar a, serch bod ganddo ef a Meinir daflen waith drom, maent hwythau a'u plant, Eban, Efa, Eos ac Eila, disgyblion yn Ysgol Llanllechid, yn gwneud eu gorau i gefnogi pob digwyddiad yn y Dyffryn.

Atebai'n agored a gonest i holi craff Beti; a'i Gymraeg Penllŷn raenus yn falm i'r glust.

Mae'r sgwrs bellach ar gael ar 'BBC Sounds'. Mae'n werth ei chlywed.

**Dathlu Penblwydd Arbennig**
Yn dilyn yr oedfa dan arweiniad y Parchg Megan Williams ar 15 Chwefror, cafodd Mrs. Eirlys Ellis dipyn o syrpreis pan wahoddwyd pawb i fynd drwodd i'r festri. Doedd hi'n gwybod dim fod y chwiorydd wedi paratoi "te bach" i ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed. Roedd o'n achlysur hapus dros ben, ac Eirlys, sydd yn un o'n haelodau ffyddlonaf, yn methu diolch digon. PENBLWYDD HAPUS EIRLYS!





Cyferbynddail yn y gwyllt a Model o'r tormaen cyferbynddail gan Kioko Terauchi

# Un o drysorau gwyllt Cwm Idwal yn cael ei ddathlu mewn model gan artist o Siapan



Mae Kioko Terauchi o Japan, sy'n treulio ychydig o amser yng Ngwynedd pob blwyddyn, wedi creu model hynod o fanwl o'r tormaen cyferbynddail (saxifraga oppositifolia) — un o blanhigion Arctig-alpaidd gwyllt Eryri.

Y tormaen cyferbynddail yw'r cyntaf i flodeuo bob blwyddyn yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal, yn aml mor gynnar â chanol Chwefror. Nid yw'n anarferol iddo ymddangos tra bod eira'n dal i orchuddio'r mynyddoedd, er mae'r tymor blodeuo'n gallu newid yn ôl tywydd y gaeaf.

Yn ystod ymweliad ym mis Mawrth 2024, cipiodd y tormaen cyferbynddail sylw Kioko Terauchi. Wedi'i hysbrydoli gan y planhigyn bach gwydn yma, fe greodd fodel gan ddefnyddio clai resin sy'n sychu yn yr aer, gwifren denau, lliwiau olew a glud pren i helpu pobl eraill i werthfawrogi'r planhigyn a'i ddeall.

Wrth egluro ei phroses greadigol, dywedodd Kioko:

"Rwy'n gwneud gwaith ymchwil a chynllunio dyluniad cyn creu modelau. Darganfod mwy am ryfeddod bywyd planhigion yw'r rhan fwyaf diddorol.

"Bob tro rwy'n ymweld â Gwynedd, rwy'n cael fy syfrdanu gan natur a'r gwaith i'w ddiogelu. Dwi mond yn creu modelau o flodau yr wyf wedi'u gweld, fel pe bai'r planhigion yn gofyn imi, 'gwna fi a dangosa fi i bobl!'"

Mae Kioko hefyd yn gwirfoddoli mewn amgueddfa leol yn Japan sy'n ceisio helpu i ddiogelu planhigion alpaidd.

Dywedodd Rhys Wheldon-Roberts, Swyddog Partneriaeth Cwm Idwal: "Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal yn gartref i rai o blanhigion Arctig-alpaidd mwyaf prin Cymru, ac maent yn arbennig o fregus i effeithiau newid hinsawdd.

"Mae'r planhigion hyn yn dibynnu ar amodau oer a sefydlog, maent ar ymylon eithaf eu cynefin yma yn Eryri, ac mae unrhyw newid yn yr hinsawdd bron yn sicr o effeithio arnyn nhw gyntaf. Felly mae mynd i'r afael â newid hinsawdd yn hollbwysig os ydym am ddiogelu'r cynefinoedd alpaidd bregus sy'n gwneud y lle hwn mor arbennig.

"Rydym yn hynod ddiolchgar i Kioko am greu model mor wych o'r tormaen cyferbynddail. Mae'n cynnig ffordd bwerus o rannu stori'r planhigion rhyfeddol hyn ac i dynnu sylw at yr heriau maent yn eu hwynebu mewn hinsawdd sy'n newid."

Mae'r tormaen cyferbynddail yn blanhigyn rhyfeddol ac ymhlith y planhigion blodeuol mwyaf gogleddol ar y Ddaear, gyda chofnodion cyn belled ag arfordir gogleddol Yr Ynys Las. Mae'r enw 'tormaen' neu 'saxifraga' yn Lladin yn golygu torri cerrig, sy'n adlewyrchu ei allu anhygoel i ffynnu mewn tirweddau creigiog llym.

Mae gan y planhigyn hefyd ffordd unigryw o gael gwared ar galch dros ben trwy chwarennau bach ar ei ddail, gan adael smotiau gwyn sy'n ei gwneud hi'n haws ei adnabod. Mae'r enw Cymraeg, 'cyferbynddail', yn ei ddisgrifio'n berffaith gyda'i ddail pâr a'i ffurf nodweddiadol.

Mae Partneriaeth Cwm Idwal yn cynnwys Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri.

***Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?***

# YSGOLION ABERCASEG A PENYBRYN

**Diwrnod Miwsig Cymru**

Bu cynnwrf mawr ar ddiwrnod dathlu cerddoriaeth Gymraeg ym Mhenybryn, gyda'r neuadd dan ei sang wrth i bawb gymryd rhan yn " Bingo Adnabod y Gân". Braf oedd clywed llu o ganeuon gwych yn y Gymraeg yn cael eu chwarae, a phawb am y gorau i adnabod y gân a'r artist er mwyn cael gweiddi " BINGO". Bu criw Abercaseg gymryd rhan mewn holiaduron, disgo, gemau yn ogystal â gwerthuso caneuon.




Hefyd, bu pob dosbarth yn cymryd rhan yng Nghwis Miwsig Cymru, gan gystadlu yn erbyn degau o ysgolion ledled y wlad. Rhaid canmol pawb am eu hymdrech a'u brwdfrydedd, a chafwyd llwyddiant arbennig wrth i un o dimau cystadleuol blwyddyn 3 ddod ymhlith yr ugain uchaf drwy Gymru, a hynny yn erbyn cannoedd o dimau eraill ar draws y wlad - camp a hanner. Diwrnod i'w gofio, yn wir.

Gwasanaethau Bore Gwener

Mae gwasanaethau bore Gwener yn binacl pwysig i'n hwythnos – cyfle i ddod at ein gilydd i addoli, gwobrwyo a chael neges/ moeswers gan ddosbarth gwahanol bob wythnos. Nid yw'r tymor hwn wedi bod yn eithriad!




Cawsom gyflwyniad i'n thema "Bydd Wych, Bydd Dda" gan ddosbarth Elidir, a wnaeth ein diddanu ar lafar ac ar gân drwy rap, dawns a cherddi amrywiol, gan bwysleisio gwerth gwneud y pethau bychain.

Yn dilyn hynny, bu dosbarth Glyder yn taflu goleuni ar hanes Florence Nightingale drwy actio a phortreadu cymeriadau bywiog – profiad addysgiadol a difyr iawn.

"Bydd Wych, Bydd Ddewr" oedd thema dosbarth Tryfan, a ddangosodd stori rymus Grace Darling yn herio tonnau'r môr mawr. Roedd eu perfformiad yn arbennig iawn, gyda gwisgoedd trawiadol, props creadigol ac actio naturiol.

Yn olaf, cynhaliwyd gwasanaeth dosbarth Carnedd ar y thema Taith yr Iaith – cyfle i fyfyrio ac i ddiolch i'r rhai a frwydrodd dros ein hawl i siarad Cymraeg o 1282 hyd heddiw. Unwaith eto, roedd y neges yn un glir, ysbrydoledig ac effeithiol.

Rydym eisoes yn edrych ymlaen at ragor o gyflwyniadau a pherfformiadau ysbrydoledig y tymor nesaf, llawn negeseuon a moeswersi gwerthfawr.

**Twrnament Boccia**

Fel rhan o'n thema "Bydd Wych, Bydd Dda", bu Blwyddyn 6 yn ffodus iawn o gael ymweliad gan swyddogion codi ymwybyddiaeth am ddementia. Bu'r plant yn trafod y pwnc yn aeddfed a pharchus, gan ofyn cwestiynau doeth a chraff.

Yn dilyn y drafodaeth, cafwyd cyfle i'r disgyblion chwarae gêm anghyfarwydd o'r enw Boccia – profiad newydd a diddorol iawn. Roedd 10 o'n disgyblion hynaf yn arbennig o ffodus i gael eu dewis i gyd-chwarae Boccia gyda phobl sy'n byw gyda dementia mewn cystadleuaeth yng Nghaernarfon.

Roedd hwn yn brofiad bythgofiadwy i'r disgyblion ac yn sicr fe ddysgodd y profiad hwn pa mor bwysig yw dangos empathi, a phwysigrwydd trin pawb gyda pharch.

**Diolch i PC Tamzin**

Hoffem ddiolch yn fawr i PC Tamzin am ddod draw at Flwyddyn 6 i'w haddysgu am gyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon, ynghyd â'r canlyniadau difrifol sy'n wynebu troseddwyr a'r effaith negyddol y gall y sylweddau hyn achosi i'r corff.

Bu'r wers yn fywiog, ac yn hynod o addysgiadol gyda neges glir a chadarn i'r disgyblion. Diolch!!

**Addysgwyr y Dyfodol**

Fel rhan o'n blaenoriaeth i ddatblygu annibyniaeth, bu dosbarth Elidir (Blwyddyn 6) yn athrawon gwych un bore pan aethant ati i gynllunio a pharatoi gwers ar gyfer dosbarth Tryfan.

Organau'r corff oedd y thema, a braf iawn oedd gweld y plant hynaf mor hyderus a brwdfrydig wrth gyflwyno eu gwers – yn esbonio a chwestiynu, herio ac annog y disgyblion iau.

Yn dilyn y wers, paratôdd y disgyblion gemau amrywiol i helpu'r plant iau adolygu mewn ffordd hwyliog ac ymarferol. Roedd hwn yn gychwyn ardderchog i gydweithio rhwng dosbarthiadau ac yn brofiad arbennig i bawb dan sylw.

**Pythefnos 3C – Dathlu Cymru, Cymraeg a Chymuned**

Yn ddi-os, un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yw Pythefnos 3C – cyfle arbennig i ddathlu ein gwlad, diwylliant, cymuned a'n hiaith.

Cychwynnodd y pythefnos gydag amryw gyfleoedd cyffrous i'r plant ymweld ag ardaloedd gwahanol o amgylch yr ysgol – gan gynnwys ardal dweud stori, ardal gemau buarth, ardal gerdd ac ardal rhaglenni a thechnoleg. Roedd pob gweithgaredd yn gyfle gwych i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau naturiol a hwyliog.

Yn ogystal, cafwyd cyfle pontio gwerthfawr rhwng dosbarthiadau wrth i blant Penybryn ymweld ag Abercaseg bob dydd i ddarllen straeon, cydweithio ar brosiectau celf, dysgu gemau buarth a chanu hwiangerddi a chaneuon adnabyddus yn Gymraeg.

Braf iawn oedd gweld plant o wahanol oedrannau yn dod at ei gilydd i fwynhau cwmni ei gilydd, wrth siarad a dathlu'r Gymraeg mewn awyrgylch hapus a chynnes.

**Diolch i'r Parchedig Sara Roberts.**

Diolch o galon i'r Parchedig Sara Roberts am ddod draw i gynnal gwasanaethau arbennig i ni am y Grawys ac am Ddydd Gŵyl Dewi.

Roedd y plant wrth eu boddau gyda'ch straeon difyr, rydym eisoes yn edrych ymlaen at eich ymweliad nesaf!

**Diolch i Ysgol Dyffryn Ogwen**

Hoffem ddiolch o galon i Ysgol Dyffryn Ogwen am y croeso cynnes a gafodd ein disgyblion yno'n ddiweddar. Bu Blwyddyn 2 a 3 yno fel rhan o ddathliadau Santes Dwynwen, a Blwyddyn 4 yno am fore blasu arbennig.

Cafodd y plant brofiadau bendigedig yn coginio, dawnsio, gwneud gwaith celf, a chael cinio hynod flasus i goroni'r cyfan. Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl, dysgu a chydweithio gyda phlant y dalgylch.

Diolch yn fawr iawn am y croeso a'r profiadau gwerthfawr!

**Pel-rwyd yr Urdd**

Bu tri thîm cymysg yn cynrychioli'r ysgol yn llwyddiannus gyda'r Urdd yn ddiweddar mewn twrnamaint pêl-rwyd ym Mangor. Chwaraeodd y tri thîm yn arbennig, gan gydweithio'n wych fel tîm a sgorio nifer o goliau. Ond yn bwysicaf oll, roeddech yn blant arbennig gan ddod â chlod ac enw da i Ysgol Penybryn unwaith eto.



**Gweithdy Lego**

Cafodd pob dosbarth gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy Lego wedi'i drefnu gan Dŵr Cymru. Roedd hwn yn gyfle gwych i'r disgyblion ddatblygu sgiliau modur manwl, cyd-weithio, dilyn cyfarwyddiadau ac archwilio posibiliadau gyrfaoedd ar gyfer y dyfodol.

Braf iawn oedd gweld pawb wrthi fel lladd nadroedd, yn creu modelau arbennig ac yna'n archwilio ac arbrofi gyda'u syniadau eu hunain. Profiad difyr ac addysgiadol i bawb!

**Diwrnod Santes Dwynwen**

Braf oedd gweld môr o binc yn Abercaseg wrth i ni ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen yn Ysgol Abercaseg. Braf oedd clywed beth oedd yr holl blant yn eu caru a phwy oedd y plant yn ddiolchgar o gael yn eu bywydau. Bu'r plant yn dysgu am y stori, yn dysgu am Eglwysi, yn meddwl am wahanol ffyrdd o adeiladu eglwysi yn ogystal â meddwl am wahanol ffyrdd o greu calonnau.

**Gweithdy Llyfrgelloedd Gwynedd**

Diolch enfawr i Eleri a Sian o llyfrgelloedd Gwynedd am ddod acw am brynhawn o hwyl gyda phlant blwyddyn 1 Abercaseg a'u rhieni. Roedd pawb wrth eu boddau yn cael gwrando ar straeon yna mynd ati i wneud ychydig o grefft a chael gwneud eu hetiau gwrachod eu hunain. Nid yn unig hyn ond cafodd pawb fag yn llawn o bethau i barhau gyda'r hwyl adref. Diolch MAWR!






# Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen

**Gweithdy Proffesor Llusern**

Braf iawn oedd cael croesawu Proffesor Llusern i ddiddanu'r plant mewn gweithdy stori a swyn yn ystod yr hanner tymor. Roedd ganddo amryw o driciau difyr, diddorol a doniol ac roedd y plant yn mwynhau pob eiliad. Roeddynt yn cael cymryd rhan yn y sioe a helpu Proffesor Llusern gyda'i driciau.

**Ymweliad Blwyddyn 2 Ysgol Llanllechid**

Diolch yn fawr i Flwyddyn 2, Ysgol Llanllechid, am ymweld â ni yn y llyfrgell. Roedd arnynt eisiau dysgu sut oedd llyfrgell yn gweithio. Paratowyd pedwar gweithgaredd ar eu cyfer gan gynnwys darlunio cloriau, chwilio am awduron a theitlau llyfrau yn ogystal â dosbarthu llyfrau i gategoriau gwahanol. Roedd y plant i gyd yn ymateb yn wych! Brysiwch draw eto!

**App archebu o'r Llyfrgell**

Un ffordd o archebu llyfrau yn rhwydd ydi lawrlwytho a defnyddio app 'Spydus Library' ar eich ffonau symudol neu dabled. Mae catalog o lyfrau Llyfrgelloedd Gogledd Cymru ar gael ar yr app i chi, er mwyn i chi allu archebu unrhyw lyfr, a bydd y llyfr(au) yn cael eu hanfon i Lyfrgell Bethesda. Bydd arnoch angen rhif eich cerdyn llyfrgell a'ch rhif pin er mwyn cael mynediad i'r app. Os nad oes gennych un o'r rhain neu os ydych angen cymorth, croeso i chi alw draw i'r llyfrgell am sgwrs.

**Cofiwch am y sesiynau canlynol:**

'Ji Babi Bach' – pob bore Llun 10:30-11:15. Sesiwn ganu, a stori ar gyfer babanod sydd heb gychwyn cropian (am ddim).

'Paned a Sgwrs' pob bore Iau -10:30-11:30. Cyfle i ddysgwyr ymarfer sgwrsio yn y Gymraeg. (am ddim).

'Gweithdy Creu Llyfr Braslunio' –Dydd Llun, 30ain o Fawrth -10:30-11:30. Gweithdy ar gyfer plant 7-12 oed er mwyn cyflwyno dwy dechneg o greu llyfr braslunio eu hunain. (Am ddim ond bydd angen cofrestru o flaen llaw os am fynychu'r digwyddiad yma ar wefan Llyfrgelloedd Gwynedd (gwynedd.spydus.co.uk).



Proffesor Llusern yng nghwmni rhai o'r plant.

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

# YSGOL BODFEURIG

### Prosiect Entrepreneur

Y tymor diwethaf bu dosbarth Ogwen yn edrych ar thema Gourmet Byd Eang ac fel diweddglo cyffrous i'r prosiect cafwyd cyfle i greu busnes. Roedd rhaid meddwl am gynnyrch i'w werthu, logo ar gyfer y cwmni, a meddwl am y gyllideb cyn mynd i Tesco i siopa. I ddilyn cafwyd diwrnod prysur o goginio pob math o ddanteithion cyn gwahodd rhieni a disgyblion eraill yr ysgol i brynnu. Gredwch chi fyth ond llwyddwyd i wneud elw o dros £250! Llongyfarchiadau mawr dosbarth Ogwen.




Dyma blwyddyn 6 yn Tesco yn barod i siopa



Dyma un o'r stondinau yn barod am eu cwsmeriaid

### Dathlu ein Cymreictod

Mae wedi bod yn fis prysur o weithgareddau i ddathlu ein bod yn Gymry. Bu dosbarth Idwal yn brysur iawn yn creu bisgedi Santes Dwynwen. Cafwyd llawer o hwyl yn dathlu penblwydd Mistar Urdd yn 50 oed cyn cael dathlu Dydd Miwsig Cymru gyda carioci! Cawsom hefyd ddisgo llwyddiannus i ddathlu dydd Santes Dwynwen – cyfle i ddawnsio a chanu i'n hoff ganeuon Cymraeg.

### Ymweliadau Ysgol Dyffryn Ogwen

Diolch o galon i staff Ysgol Dyffryn Ogwen am y croeso i'n disgyblion dros y tymor. Cafodd blwyddyn 2 a 3 ddiwrnod gwerth chweil yn yr Wyl Santes Dwynwen gan gael cyfle i wneud llawer o weithgareddau creadigol diddorol. Yn dilyn hyn bu blwyddyn 4 yno i gael blas ar sut le ydi'r ysgol. Diolch i bawb fu'n rhan o gynllunio'r dyddiau, roedd plantos Bodfeurig wir wedi joio!



Cyfle i wneud ychydig o gelf yn Ysgol Dyffryn Ogwen



### Draig yn yr ysgol

Peidiwch â dychryn wrth fynd heibio'r ysgol os welwch chi ddraig goch yn ymgartrefu yno! Mae'r ddraig yn rhan o'r gardd gymunedol a sefydlwyd y llynnedd – dewch am dro i'w gweld.

# Taith ddiddorol – Doha

Bu Emyr a Heulwen Roberts ar daith ddiddorol iawn yn ddiweddar. Wrth deithio i gyfarfod â Dafydd, mab ieuengaf Emyr yn Bali roedd raid iddyn nhw fynd drwy Doha yn Qatar. Yn ôl Emyr mae Doha yn lle diddorol a gwahanol iawn ar wahân i fod yn eithriadol o boeth a sych.

Yn y llun cyntaf mae "plisman" yn Doha ar ei farch yn edrych ar gath ddu!

Rhan bwysig o draddodiad y Bedouin ydy'r ffaith fod ceffylau arabaidd yn destun balchder i'r wlad

Yn y llall mae camelod yn cael eu marchogaeth gan filwyr seremonïol yr Emir yn Doha.

Am bedwar o'r gloch bob dydd ceir seremoni o tua 40 o gamelod yn gorymdeithio o flaen palas gweinyddol yr Emir, gyda'r milwyr yn gwisgo gwisg seremonïol y Bedouin. Mae'r seremoni hwn yn un sumbolaidd sy'n dathlu traddodiad y Bedouin, trigolion gwreiddiol yr anialwch.








# Iaith Pesda

## gan Mary Jones

Gobeithio y bydd y gwanwyn yn dangos ei liwiau erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd. Petai Chwefror 28ain a'r 1af o Fawrth wedi eu cyfnewid o ran tywydd byddai wedi dod i mewn fel oen, ond fel llew y daeth gyda'r gwynt a'r glaw.

## Aderyn

Beth am ddywediadau, ymadroddion a chymariaethau sy'n ymwneud ag adar? Oes, mae gynnon ni lawer ohonyn nhw.

Cymrwch y dywediad bod rhywun yn **dipyn o dderyn**. Dipyn o gymeriad ydy hwn neu hon. Dwi'n siŵr bod nifer ohonoch chi'n cofio'r cymeriad Dic Deryn yn cael ei actio gan Ifan Huw Dafydd yn Pobol y Cwm erstalwm. Dywediad arall ydy "Mae 'na **dderyn bach** wedi dweud wrthaf i dy fod di wedi cael newyddion da" sef ymateb chwareus. **Deryn nos** ydy rhywun sy'n aros ar ei draed yn hwyr cyn mynd i'r gwely. **Aderyn corff** ydy'r dylluan – hen arwydd marwolaeth. **Aderyn brith** ydy rhywun llechwraidd, amheus. Mae gynnon ni ddywediad am rywun sydd heb fod mewn sefyllfa i feirniadu neb arall - "**Mae isio ceiliog glân i ganu**" neu "**Mae isio deryn glân i ganu**."

Mae yna ddigon o gymariaethau a dywediadau eraill wrth law inni hefyd:

**Cyw a fegir yn uffern, yn uffern y myn drigo** – anodd tynnu rhywun oddi wrth yr hyn y mae o neu hi wedi arfer ag o.
**Gwell aderyn mewn llaw na dau mewn llwyn** – gwell dal gafael yn yr hyn sydd gennych na'u gollwng yn y gobaith o gael mwy.
**hapus fel y gog –** mewn hwyliau da.
**sgwennu traed brain** – sgrifen flêr.
**coesau robin goch** – rhywun efo coesau main iawn.
**rêl c'loman** – dynas flêr ei phethau, ei thŷ neu ei meddyliau.
**byta fath â dryw** – rhywun yn bwyta ond ychydig.
**llygad barcud** – rhywun efo llygad craff – ddim yn colli dim.
**fel piodan** – dynes yn symud yn sionc – 'yn fân ac yn fuan'.
**hen walch –** rhywun drwg.
**rêl sguthan –** dynes annymunol iawn.
**canu fel deryn**; **llais fel eos** – rhywun yn medru canu'n swynol.
**llais fel brân** – llais canu cras, aflafar.
**'fath â iâr** – rhywun di-sut.
**fel ceiliog dandi** – dyn bychan hunan-bwysig yn ei sgwario hi.
**porthi.** Bwydo ydy 'porthi'. Mae ffermwyr yn porthi anifeiliaid, ond nae'r gair hefyd yn golygu cefnogi. Yn y capeli ers talwm byddai blaenoriaid yn porthi'r pregethwr – yn 'amenio', sef dweud 'Amen' ac 'Ia. wir' i'w gefnogi. Hefyd, yn ystod anerchiad byddai'r rhai mwyaf brwd yn y gynulleidfa yn porthi'r siaradwr drwy ddweud 'Clywch! Clywch!' a 'Da iawn!'.
**cratsian.** Malu'n fân ydy ystyr hwn – "Mae o wedi torri ei choes yn gratsian."
**golchfa.** Pwll mewn afon i olchi defaid erstalwm. Mae'r Olchfa Uchaf a'r Olchfa Isaf ar afon Lafar,
**hiddig.** Huddygl' ydy hwn, sef parddu yn y simdda.
**traethu**. Mynd ymlaen ac ymlaen efo rhyw gŵyn neu'i gilydd – "Doedd 'na ddim diwadd arni hi'n traethu!"
**bygwth.** Mynegi bwriad cryf i wneud rhywbeth **drwg** ydy'r ystyr cyffredin, ond mae o hefyd yn medru golygu bwriadu gwneud rhywbeth a fedr fod yn dda – "Fydd raid imi fynd i edrach am Gwilym. Dw i'n bygwth galw i weld o ers tro."
**colli 'nabod.** Os nad ydych wedi gweld rhywun ers talwm efallai i chi ddweud eich bod wedi 'colli nabod' arnynt.
**'r un ffunud.** Pan fydd plentyn yn debyg i'w rieni neu unrhyw un o'r teulu dywedir eu bod yr un ffunud a'i gilydd.
**crap.** Cyn i neb fynd i gwyno i'r golygydd am 'iaith' Iaith Pesda ydych chi wedi clywed y geiriau hyn "Doedd ganddo fawr o grap ar y Gymraeg." yn golygu nad oedd yn gallu siarad Cymraeg yn dda o gwbl. Dywedai fy mam nad oedd gan fy nain ond rhyw grap ar y Saesneg.
**hen sopan** gair i ddisgrifio merch pan fyddai wedi gwneud rhyw ddrwg neu ymddwyn yn annifyr.

Cofiwch gysylltu -
Mary Jones,
42 Erw Las,
Bethesda
LL57 3NN 07443047642
maryeds@hotmail.co.uk



SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

*Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?*

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts ac aelodau o'r côr

**Eisteddfod**
Llongyfarchiadau i Gôr y Penrhyn am y llwyddiant yn Eisteddfod y Felin y mis dwytha. Dim ond o drwch blewyn aeth Côr Dre (Caernarfon) dan arweiniad Sian Wheway â'r wobr gyntaf oddi arnynt. Rhoddodd y côr gyfrif da ohono'i hun yn erbyn lleisiau ifanc y buddugwyr.

**Rhosygilwen**
Am y trydydd tro cafodd Côr y Penrhyn wahoddiad i ardal Aberteifi a Gogledd Sir Benfro i gyflwyno cyngerdd Gŵyl Ddewi. Teithiodd yr aelodau i lawr ar y penwythnos o flaen Gŵyl Ddewi ac fe gafwyd croeso mawr ym mhlasty mawreddog Rhosygilwen. Mae perchennog y lle wedi gwario'n helaeth ar adeiladu neuadd hardd i gynnal cyngherddau a chyflwyniadau artistig o flaen cynulleidfaoedd cymysg o ardal Aberteifi, Llandudoch, a Chastell Newydd Emlyn. Mae yno hefyd le i nifer cyfyngedig aros ac fe gafodd yr aelodau lwcus aros ac ymlacio yn ystafelloedd y fangre.

Cyflwynwyd y côr i ardal Aberteifi ac i Rosygilwen gan Mr Haydn Davies, sydd yn wreiddiol o ardal Cenarth a'i deulu wedi bod yn ffermio yno am flynyddoedd. Gallai Haydn siarad o brofiad am bysgota ac am rasus cwrwgl i lawr yr Afon Teifi i lawr i'r môr.

**Aled Williams B1 sy'n adrodd hanes taith Côr y Penrhyn i Aberteifi a Rhosygilwen 2026**
Teithiodd y Cor drwy 'geinder bryn a bro' yr Hen Wlad a oedd yn ei gogoniant yn yr heulwen prin i gyrraedd Rhosygilwen.

Yno, ar ôl gwledda'n ddiddan yn y Plasdy ar gawl hynod o flasus, cawsom gynnal cyngerdd i gynulleidfa wresog a gwerthfawrogol dros ben.





Haydn Davies, a fu'n gyfrifol am gael cyswllt â Rhosygilwen yn y lle cyntaf.

Cafwyd ddatganiadau hyfryd gan Raymond Roberts ac Arwel Davies gyda Fran yn cyfeilio'n fedrus.

Yn anffodus iawn, yn dilyn y cyngerdd, bu tro digwyddiad a berai gofid oherwydd fe gafodd aelod amlwg o'r côr sef Idwal Jones ei daro'n wael.

Yn ffodus, roedd y paramedig, Dafydd Jones-Morris gyda ni a bu ei ofal ef yn allweddol i sicrhau diogelwch Idwal tra'n disgwyl am ambiwlans i'w gludo i Ysbyty Llwyn Helyg. Yno, cafodd brofion i ganfod ei gyflwr.

Roedd ei ffrind ffyddlon Arwel Owen wrth ei ochr drwy'r amser. Gwellodd ei gyflwr ddigon iddo allu gadael yr ysbyty i ddychwelyd gyda bws y Côr a chofrestru yn Ysbyty Gwynedd.

Dymunir triniaeth addas iddo ac adferiad buan. Roedd pawb yn ddiolchgar am y cymorth caredig a pharod a estynwyd drwy'r cyfnod dan sylw. Roedd canran o'r Côr yn aros ym Mhlasdy urddasol Rhosygilwen a'r gweddill mewn gwesty moethus ar lan y Teifi. Er y tristwch yn y cefndir, cafodd yr aelodau gyfle i fwynhau cwmni ei gilydd a rhoi'r byd yn ei le tan oriau mân y bore.



Uchod gwelir rhai o aelodau'r côr yn aros e u tro I fynd o flaen y gynulleidfa yn Rhosygilwen

## Cymeriadau'r Côr

**Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Paul Rowlinson**



**Be' ydy dy enw llawn?** Paul Rowlinson
**Gwaith** Cynghorydd Sir, Arweinydd Portffolio Tai ac Eiddo gyda Chyngor Gwynedd
**Lle wyt ti'n byw?** Drws nesaf i Glwb Criced a Bowlio Bethesda
**Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** Cefais fy ngeni ger Manceinion a'm magu yn Llundain.
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Tawel, gobeithiol, prysur
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr** Ymunais ym 1983. Gadewais y côr pan oedd fy mhlant yn fach ac ailymunais yn 2024.
**Pa lais wyt ti?** Tenor cyntaf
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Oherwydd fy mod yn hoffi canu. Hefyd, roeddwn newydd symud i Fethesda i fyw ac roeddwn yn awyddus i gyfarfod mwy o bobl, gwneud ffrindiau a gwella fy Nghymraeg.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Ave verum corpus, gan Mozart
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Mae'n well o lawer gennyf gerddoriaeth glasurol ond rwy'n gwerthfawrogi canu pop yn fwyfwy wrth fynd yn hŷn.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Llawer iawn – ymweliadau â'r Almaen, y Ffindir, yr Unol Daleithiau ac Iwerddon yn y gorffennol ac i Ganada y llynedd. Mae'n braf iawn cyfarfod a dod i adnabod cantorion o wledydd eraill a'u croesawu yn ôl i Gymru.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Rwyf ar fwrdd llywodraethu dwy ysgol leol a phwyllgorau Ynni Ogwen a Llais Ogwan, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol ac eglwysig ac yn mwynhau cerdded yn y mynyddoedd.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Rwy'n edrych ymlaen at fynd yn ôl i'r Almaen ym mis Gorffennaf.
**Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr**? Buasai'n braf iawn petai mwy o hogiau ifanc yn ymuno.

**Englyn i gofio Fred**
Yn y rhifyn diwethaf cynhwyswyd teyrnged i'r diweddar Fred Buckley. Yn anffodus ni chyrhaeddodd yr englyn gwych i gofio Fred golofn y çôr mewn pryd i'w gyhoeddi. I wneud iawn am hynny cynhwyswn englyn campus Mr Dilwyn Owen unwaith eto yn y rhifyn yma.


### Er cof am Fred

Bowliodd ar lawnt ei balas – dyn y côr
A dawn cân llawn urddas,
Yn hynod ei gymwynas
Cywir lanc yr awyr las.
Dilwyn Owen





Fran Davies, cyfeilydd y côr yn barod i ganu'r piano yn y cyngerdd. Mae Aberteifi a'r ardal yn gyfarwydd iawn iddi hi wrth gwrs gan mai un o'r ardal honno ydy hi yn wreiddiol.

# Hen Bapurau Newydd Diddorol




Mae gan Meurig Williams, Bro Rhiwen, Rhiwlas gasgliad bychan o hen bapurau newydd a gyhoeddwyd yn niwedd y 19g. Rhifynnau o'r flwyddyn 1874 ydyn nhw, ac maen nhw'n llawn newyddion y dydd am faterion crefyddol, cymdeithasol a gwleidyddol; digwyddiadau fel marchnadoedd, ffeiriau, rasys cŵn defaid, teithiau llongau, hysbysebion nwyddau o bob math, hysbysebion swyddi, arwerthiannau ffermydd ac ati. Yn naturiol, pethau a oedd o bwys i'r darllenwyr oedden nhw, ac mae'r wybodaeth sydd ynddyn nhw o ddiddordeb i ni heddiw achos drwyddyn nhw cawn gip-ddarlun o'r cyfnod.

Un o'r papurau newydd ydi *Baner ac Amserau Cymru* (Hydref 14, 1874), y papur Cymraeg pwysicaf a mwyaf dylanwadol yn y cyfnod. Ei berchennog oedd Thomas Gee, cyhoeddwr, newyddiadurwr, pregethwr ac ymgyrchydd. Roedd yn cefnogi'r chwarelwyr a'r tyddynwyr yn eu hymdrechion i gael tegwch gan y tirfeddianwyr. Roedd 1874 yn bwysig iawn yn hanes brwydr y chwarelwyr oherwydd sefydlwyd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru a phenodi W.J. Parry, Bethesda, yn Ysgrifennydd Cyffredinol iddi, a chafwyd dwy streic yn Chwarel y Penrhyn.



**Thomas Gee, ymgyrchydd dros y chwarelwyr a'r tyddynwyr**

Byddai gan y *Faner* ohebwyr lleol yn darparu adroddiadau o wahanol drefi ac ardaloedd ledled y wlad, a Bethesda yn eu plith. Ceir adroddiad helaeth dros ddwy golofn dan y pennawd 'Yr Ail Sefyll Allan yn Bethesda'. Ynddo ceir hanes cyfarfod mawr yn Neuadd y Farchnad ym Methesda i darfod cwynion y chwarelwyr yn erbyn eu hamodau gwaith. Mae'r adroddiad yn cynnwys llythyrau'r ohebiaeth rhwng Mr Arthur Wyatt, ar ran yr Arglwydd Penrhyn, a Phwyllgor y Chwarelwyr sef Robert Parry (Cadeirydd), W. Williams, Hugh Jones, Griffith Edwards, John Evans, Hugh Jones, John Davies.

Mae yna adroddiad arall o dan bennawd Bethesda, sef hanes ymchwiliad i gyhuddiadau yn erbyn goruchwylwyr yn y chwarel a gynhelid yn y swyddfa ym Mhorth Penrhyn, a bod dwy fil o chwarelwyr Dinorwig wedi cerdded dros y mynydd i Fethesda i ddangos eu cefnogaeth mewn cyfarfod mawr a oedd yn cael ei gynnal yn yr awyr agored.

Hefyd yn y rhifyn mae adroddiad am y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, ac am berthynas y Cymry a'r brodorion. Mae'r adroddiad yn gorffen efo anogaeth i ddarllenwyr y papur ac eraill i ymfudo yno, a sylwch ar y cyfeiriad at chwarelwyr Bethesda yn y frawddeg olaf –

'Da gennym ddeall fod llawer yn bwriadu myned allan gyda'r fintai nesaf, Tachwedd 20fed. Pwy a ddaw? Ceir manteision yn awr nas ceir eto, ac nas ceir mewn un wlad arall ar y ddaear. Gydwladwyr, achubwch y cyfleustra…Anfonwch bawb at Mr. Owen Edwards, 2 Williamson Square, Liverpool. Gobeithiwn glywed gyda y *mail* nesaf hanes glaniad y fintai ddiweddaraf a'r fintai Americanaidd. Cawsant eu cadw'n hir yn Buenos Ayres, ond cymerir gofal rhag i hynny ddigwydd eto. Llechwyr Bethesda, llanciau Eryri, amaethwyr, a gweithwyr gorthrymedig Cymru, awn a meddiannwn y wlad.'

Papur newydd arall diddorol yn y casgliad ydi *The Carnarvon and Denbigh Herald and North and South Wales Independent* (Hydref 10, 1874). Roedd gan y papur hwn hefyd ei ohebwyr lleol. Yn ddiddorol iawn, yn y golofn lythyrau, ac o dan y pennawd 'The Bethesda Strike' mae W.A. Darbishire o Nantlle yn mynnu datgan yn gwbl glir ei fod yn erbyn streic chwarelwyr y Penrhyn, a bod y fath weithredu yn 'unnecessary and silly', ac y dylai'r heddlu warchod dynion gwantan a merched rhag dynion cydnerth yn gofyn am gyfraniadau ariannol tuag at gynorthwyo'r streic.

Yr adroddiad gan ohebydd Bethesda yn y rhifyn hwn ydi hanes llys arbennig yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Douglas – llys cofrestru dan ofal Thomas Jones, bargyfreithiwr y sir a bwrdeistref Caernarfon, er mwyn diwygio rhestr etholwyr plwyfi Llanllechid a Llandygái. Yn bresennol ar ran y pleidiau gwleidyddol roedd cynrychiolwyr o'r blaid Geidwadol ac o'r blaid Ryddfrydol, gan gynnwys W.J. Parry, Ysgrifennydd Cymdeithas Ryddfrydol Sir Gaernarfon.

Diddorol ydi nodi beth arall ddigwyddodd ym Methesda a'r cyffiniau yn 1874. Dyma ran o *Flwyddiadur Digwyddiadau Dyffryn Ogwen* Dr J. Elwyn Hughes, gyda chaniatâd Deilwen Hughes.

- 09/02/1874: Agorwyd yr Ysgol Frutanaidd yn yr Ystafell dan Gapel Bethesda.
- 03/1874: Traddodi'r bregeth olaf yn 'hen' Gapel Jerusalem. Ailgodi'r Capel – yr adeilad presennol – gyda lle i 900-950 eistedd. 'Talwyd am yr adeilad a'r adeiladau cysylltiedig â'r lle, ynghyd â'r rhenti, trethi, adgywiriadau, y swm o £6605/17/11½, a chasglwyd y swm hwn trwy gasgliadau gwirfoddol … heb gymorth na darlith, "concert" na "tea party". Bernir bod yr addoldy hwn yn un o'r rhai mwyaf, harddaf a gwerthfawrocaf yng Nghymru.'
- 04/1874: Sefydlu Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru – codi W. J. Parry yn Ysgrifennydd Cyffredinol.
- 14/07/1874: Yr Arglwydd Penrhyn yn cyhoeddi y caeai'r Chwarel pe dangosid unrhyw gefnogaeth bellach i'r Undeb. Y rhan fwyaf o'r chwarelwyr yn ymuno â'r Undeb yn syth.
- 20/07/1874: Dros 2300 o chwarelwyr y Penrhyn wedi ymaelodi â'r Undeb.
- 01/08/1874: Streic yn Chwarel y Penrhyn.
- 17/09/1874: Y chwarelwyr yn dychwelyd at eu gwaith ar ôl bod ar streic am 7 wythnos.
- 19/09/1874: Streic eto am na chadwyd at delerau Cytundeb Pennant Lloyd.
- 09/11/1874: Y chwarelwyr yn dychwelyd at eu gwaith eto ar ôl bod ar streic ers Medi 19. Anfonwyd plismyn i Fethesda ar un achlysur ond pobl ar eu ffordd i'w capeli a welsant. Yn ystod y streic, casglwyd £3909/10/3 i chwarelwyr y Penrhyn.
- Ailadeiladu'r rheilffordd rhwng Chwarel y Penrhyn a'r Cei (Porth Penrhyn) ar gyfer injins stêm.

Diolch i Meurig am dynnu ein sylw at yr hen papurau newydd sydd yn ei feddiant ac am ganiatáu *Llais Ogwan* i ddyfynnu ohonyn nhw.

## Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Cartref Newydd**
Dymuniadau gorau i Beca Roberts yn ei chartref newydd yn Ffordd Ffrydlas, Bethesda.

**Profedigaeth**
Bu farw Rheinallt Jones gynt o Rhês Elfed, gŵr y diweddar Helen a thad annwyl i Brian a Gwenda. Anfonwn ein cydymdeimlad at yr holl deulu.

Yn dawel ar Chwefror 3ydd bu farw Gareth Jones (Gareth Saer) yn Ysbyty Gwynedd. Gŵr annwyl Nancy, tad cariadus i Carys, Helen a Gerallt, tad yng nghyfraith annwyl i Bethan, Paul a Bill, taid a hen daid annwyl iawn, brawd a brawd yng nghyfraith i Kenneth, Vivienne a John a Glenys a Tony. Anfonwn ein cydymdeimad atoch fel teulu a ffrindiau Gareth yn eich colled.

Yng Nghartref Nyrsio Glyn Menai bu farw Mrs Mair Taylor, gwraig y diweddar Bobby Taylor, mam annwyl iawn i Heather, Elaine a Dawn, nain a hen nain annwyl. Bydd yn golled mawr i'r teulu a'i ffrindiau i gyd. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu yn eich profedigaeth.

**Gwellhad Buan**
Anfonwn ein cofion at Elfyn Roberts fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, gobeithio dy fod yn teimlo'n well erbyn hyn.

Dymuniadau gorau i Dyfrig Roberts, Stryd Fawr, Bethesda. Nid yw wedi bod yn dda yn ddiweddar.

Trefnwyr angladdau annibynnol yn cefnogi teuluoedd ar draws Gogledd Cymru i greu angladdau traddodiadol, gwyrdd, unigryw a phwrpasol.

Swyddfeydd ym Mangor a Bethesda.



Gwasanaeth amlosgiad uniongyrchol ar gael gydag arch, amlosgiad lleol, dychwelyd llwch a ffioedd proffesiynol wedi'u cynnwys £1,375

133 Stryd Fawr, Bangor • 57 Stryd Fawr, Bethesda
01248 351631 post@enfysfunerals.co.uk

### Yr Eglwys Unedig Mawrth 2026

**Gwasanaethau**
Hyfryd oedd cael arweiniad y canlynol yn ein gwasanaethau yn ystod mis Chwefror: Mr Donald Pritchard, Y Gweinidog, a'r Parchedig Iwan Llewelyn Jones. Diolch yn fawr iddynt. Hefyd, cawsom y fraint o ymuno gyda chynulleidfa Capel y Rhos, Llanrug, ynghyd ag aelodau Cysegr, Bethel a Chaeathro, pryd y gweinyddwyd y Cymun o dan arweiniad ein Gweinidog.

**Bore Coffi**
Fore Sadwrn, Chwefror 7, cynhaliwyd bore coffi i gefnogi taith Buddug Watcyn Roberts gydag Urdd Gobaith Cymru i'r India. Bwriad y daith yw cynorthwyo merched ifainc tlawd yno i gael addysg, ac i addysgu pobl ifainc yn gyffredinol am bwysigrwydd parchu ei gilydd. Rhwng y bore coffi, a chyfraniadau ar y wefan 'Just Giving', llwyddwyd i godi dros £800. Dymuna Buddug ddiolch o galon i bawb am eu haelioni, gan werthfawrogi ei bod yn byw mewn cymuned sydd bob amser mor barod ei chefnogaeth. Mae hi ar ei ffordd adref bellach (Mawrth 2), yn dilyn gorfod aros am ddeuddydd ychwanegol oherwydd y sefyllfa echrydus yn Iran.

**Y Gymdeithas**
Croesawodd Neville yr aelodau a oedd yn bresennol, a chyflwynodd Carol Griffith o Gyfeillion Pier Bangor atom. Cafwyd sgwrs a lluniau diddorol iawn ganddi, yn olrhain hanes y Pier. Diolchwyd iddi gan Neville, a diolchodd hefyd i Annwen a Nia am baratoi'r baned.
Andre Lomozik fydd yma i'n diddanu ym mis Mawrth, ac edrychwn ymlaen yn arw at hynny.

**Llenwi'r Cwpan**
Braf iawn yw gweld cynifer yn troi i mewn i'r Festri fach ar fore Iau i gael paned a sgwrs ddifyr. Mae croeso cynnes yn disgwyl pob un ohonoch cofiwch!

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sydd yn dioddef o anhwylder neu lesgedd y dyddiau yma, gan obeithio y bydd y gwanwyn sydd ar y gorwel yn fodd i godi'r galon.

Dyma ran fach o Awdl Alan Llwyd i'r Gwanwyn:

Cenwch i degwch y dydd
Hen salm oesol y meysydd.
Er gwaethaf gwae y gaeaf,
Heb ei ddod ni byddai haf,
Ac er ei oedi gyhyd,
Y mae'n Wanwyn mewn ennyd.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Mawrth 22: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans (5)
Mawrth 29: Undebol yn Jerusalem gyda'r Gweinidog (10)
Ebrill 5: Mrs Eirlys Williams (10)
Ebrill 12: Undebol yn y Cysegr, Bethel (10)
Ebrill 19: Y Parchedig Eric Jones (10)

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

## Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar nos Iau 26ain o Chwefror yng Nghanolfan Cefnfaes.

**Rhoddion Blynyddol**
Yn dilyn hysbysiad rhoddion y Cyngor, nodwyd fod llawer o fudiadau lleol wedi derbyn rhodd. Dyma restr o'r mudiadau oedd yn llwyddiannus:

| | |
|---|---|
| Llais Ogwan | £500 |
| Apêl Cronfa Cyfle I bawb yr Urdd | £100 |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £150 |
| Hwb Ogwen | £500 |
| Theatr Bara Caws | £300 |
| Sefydliad y Merched Carneddi | £50 |
| Carnifal Bethesda | £2000 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £200 |
| Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen | £500 |
| Balchder Bro | £1,500 |
| Caban Gerlan | £1,500 |
| Dawns I Bawb | £100 |
| Clwb Camera Dyffryn Ogwen | £150 |
| Eglwys Glanogwen | £500 |
| Radio Ysbyty Gwynedd | £100 |
| Clwb Criced a Bowlio Bethesda | £300 |

**Lloches Bws Maes Bleddyn / Cae Rhosydd**
Mae Cyngor Cymuned Bethesda yn falch iawn o gyhoeddi bod safle bws newydd yn cael ei osod ym Maes Bleddyn a gyferbyn Cae Rhosydd yn fuan.

**Lloches Bws Bontŵr**
Mae'r safle bws yma wedi cael ei ddifrodi ac mae'r cyngor yn bryderus nad yw busiau wedi bod yn aros yno oherwydd y difrod. Mae'r Cyngor felly wedi cymryd camau i sicrhau fod yn safle yn saff ac addas i'w ddefnyddio tra bod opsiynau am loches newydd yn cael eu archwilio.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Apel**
Mae cronfa'r Apel yn dal ymlaen, gan fod costau cynyddol yn dod i law oherwydd tywydd garw a.y.y.b. Diolch am unrhyw roddion, gwerthfawrogir pob un yn fawr. Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu i'r Apel, neu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop.coop er mwyn cael y manylion.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf fel arfer at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ôl llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sy'n colli dod i'r eglwys i ymuno yn y gwasanaethau a'r cyfeillgarwch.

Cofiwch roi gwybodaeth i Sara os oes rhywun yn awyddus i gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

**Plas Ogwen**
Ar y Sul olaf o'r mis, mae'r Parchedig Sara yn cynnal gwasanaeth Cymun i drigolion Plas Ogwen am 2 o'r gloch y prynhawn. Mae croeso i bawb, ac wedi bod yn boblogaidd i'r rhai sydd wedi mynychu hyd yma. Mae'n wasanaeth byr, a chyfle i gyd-ganu ambell i emyn.

**Gwasanaethau Glanogwen**
Mae trefn y gwasanaethau wedi mis Ebrill yn parhau fel a ganlyn:

**Suliau 1af a'r 2il yn y mis**: Cymun Bendigaid am 11am.

**Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis** am 10.30am - Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

Yn ystod tymor y Garawys, cynhelir cyfarfodydd byr yn dilyn Llwybr y Groes bob nos Fawrth yn yr eglwys am 7 yr hwyr

**Gwyl y Pasg** – Cynhelir gwasanaethau fel a ganlyn:
**Dydd Gwener y Groglith** (Ebrill 3ydd): Myfyrdod rhwng 2 a 3 y prynhawn
**Bore Sul y Pasg**: Cymun Bendigaid am 11.00am

Croeso cynnes, fel arfer, i bawb i'r holl wasanaethau.

**Ymddeol**
Mae ein ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd, yn ymddeol ar ddiwedd mis Mai – Sul y Pentecost.

Mae'r ficer yn dioddef anhwylder iechyd ar hyn o bryd; dymunwn wellhad llwyr a buan iddo fel y caiff ef a'i wraig Elizabeth fwynhau'r cyfnod o seibiant haeddiannol sydd o'u blaen.

Diolch i bawb a gefnogodd y Prynhawn Crempog. Enillwyd y wobr lwcus gan Sioned, mam Seren ac Osian.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981 os am drefnu bedydd neu angladd.

## Gair neu ddau John Pritchard

# Rhyfel Eto Fyth

Mae mis Mawrth yn ddeuddydd oed a'r byd yn sydyn iawn yn lle mwy peryglus o lawer. Heno, nid yn ddifeddwl nac yn ysgafn y dywed neb gyda'r Salmydd, 'Pe bai byddin yn gwersyllu i'm herbyn, nid ofnai fy nghalon; pe dôi rhyfel ar fy ngwarthaf, eto, fe fyddwn yn hyderus' (Salm 27:3). Ac eto, gobeithiwn a gweddïwn y bydd pobl ar hyd ac ar led y Dwyrain Canol yn gwybod rhywbeth am y cysgod a'r diogelwch a brofodd y Salmydd yn wyneb y gwaethaf yr oedd y byd yn ei daflu ato yntau.

Mae Trump, a addawodd na fyddai fyth yn mynd â'i wlad i ryfel – ac a bwdodd â phawb am na chafodd ei gydnabod y saer heddwch gorau a welodd y byd erioed—wedi cychwyn rhyfel. Wrth ei ochr, yn taranu yn erbyn arweinwyr anghyfiawn Iran, mae Netanyahu, sydd wedi trin ei gymdogion Palestinaidd yn gwbl anghyfiawn ers blynyddoedd. Mewn llai na deuddydd, mae taflegrau wedi taro o leiaf wyth gwlad arall yn dilyn ymosodiad America ac Israel ar Iran a lladd yr Arch Arweinydd Khamenei. Ac mae Trump a Netanyahu yn ffugio syndod a ffieidd-dod o weld arweinwyr Iran yn meiddio taro'n ôl.

Eisoes, lladdwyd dros 550 o bobl yn Iran, yn cynnwys dros 50 o enethod oedd wrth eu gwersi ysgol. Ac mae Ysgrifenydd Amddiffyn Trump, Pete Hegseth, yn ymffrostio yn yr hyn a eilw'r ymgyrch filwrol fwyaf nerthol a welodd y byd erioed. 'Mi wnawn ni orffen [y rhyfel] hwn,' meddai, 'ar amodau *America First* ac o ddewis yr Arlywydd Trump a neb arall, fel y dylai fod!' Gwaeth na'r rhethreg honno oedd ei gyhoeddiad na fyddai yna 'unrhyw reolau hurt i'r ymladd ... nac unrhyw ryfel gwleidyddol gywir'. Mi fyddai America ac Israel, meddai, yn gwneud a fynnent – a dyma'r geiriau gwirioneddol ddychrynllyd – 'beth bynnag a ddywed y sefydliadau rhyngwladol honedig'. Naw wfft i'r Cenhedloedd Unedig, Y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol, Y Llys Troseddau Rhyngwladol, Confensiwn Genefa ac unrhyw un ac unrhyw beth arall y mae rhyfelwyr byd yn arferol yn atebol iddynt.

Bomio ysgolion; lladd plant bach; rhwygo teuluoedd; chwalu cartrefi; dwysau tensiynau; llusgo gwledydd cyfagos i'r drin; anwybyddu a dilorni cyfraith ryngwladol; sarhau beirniaid; bygwth gwrthwynebwyr; clodfori arfau difäol; ymffrostio mewn lladd: hyn a mwy (a gwaeth) oedd neges Hegseth heddiw. A gorffennodd ei araith â geiriau a fedrai fod yn brydferth ar dafod rhywun arall ac mewn amgylchiadau eraill, ond sy'n gwbl wrthun o'i enau ef yn y cyswllt hwn heddiw: 'Yn syml iawn, rwy'n gweddïo am y ddoethineb Feiblaidd i wybod beth sy'n iawn, ac am y dewrder i'w wneud'.

Beth bynnag arall yw Pete Hegseth a'i debyg, yn cynnwys yr Arlywydd ansad a pheryglus y mae Hegseth a Vance ac eraill yr un pryd yn ei ddilyn yn wasaidd ac yn ei arwain yn gelfydd, nid pobl a ddoniwyd â doethineb Feiblaidd mohonynt. Mae'r byd yn lle peryglus iawn yn eu dwylo. Ac felly, mewn gwendid ac ofn y bydd miloedd ar filoedd o bobl ym mhob cwr o'r byd y dyddiau nesaf hyn yn gweddïo na chaiff y rhain rwydd hynt i wneud y llanast y medran nhw ei wneud.

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Bendithion y Pasg**
Fel cynulleidfa, dymunwn Basg Hapus i bob un o'n darllenwyr. Bydd ein gwasanaeth Sul y Pasg Ebrill 5ed am 11.00. Byddwn yn addurno'r eglwys fore Sadwrn y 4ydd o 10.30 ymlaen. Cofiwch bydd yr Eglwys yn agored yn ddyddiol o'r Pasg ymlaen!


**Newyddion o'r Clochdŷ**
Canwyd chwarter caniad o'r tŵr ddiwedd mis Ionawr i ddathlu penblwydd Bont y Borth yn ddau gant oed. St Tegai yw'r clochdŷ agosaf i'r bont felly roedd yn addas iawn dathlu'r digwyddiad hanesyddol yma.

Cafodd Dewi Sant hefyd ei anrhydeddu ar ei Ŵyl pan ddaeth y clochyddion ynghyd i ganu chwarter caniad fel rhan o ddathliad Mawrth 1af.

**Dymuniadau Gorau**
Mae Gareth Lloyd, ein Ficer, yn absennol ar sail iechyd ers rhai wythnosau. Edrychwn ymlaen i glywed ei fod yn gwella fel mae'r gwanwyn yn nesau. Cafodd Edmond Douglas Pennant ddamwain yn ei gartref ganol mis Chwefror gan dorri bawd ei droed. Mae adref erbyn hyn ac yn ymarfer cerdded o gwmpas y pentref. Dymuniadau gorau iddo ac i Pauline Edwards, Lionel Gardner hefyd yn gwella adref.

**Ysgol Llandygai a Bedydd**
Ganol mis Chwefror daeth Blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Llandygai i'r eglwys i gael gwers ar y ddefod Bedydd Sanctaidd fel rhan o'u hastudiaeth o'r ffydd Cristnogol. Croesawyd y plant i'r eglwys gan y Parch Sara Roberts.

**Diolch am wasanaeth swyddog**
I siom a dychryn cynulleidfa St Tegai a Bro Ogwen yn gyffredinol cawsom y newyddion fod Edmond Douglas Pennant wedi ymddiswyddo o'i waith fel Warden y Bobl a Thysorydd St Tegai, ac un o'n cynrychiolwyr ar Gyngor Eglwysig y Fro ac hefyd fel cynrychiolydd y gymuned ar Gorff Llywodraethol Ysgol Llandygai. Mae



wedi gweithio'n galed a ddi-ffwdan ar hyd y blynyddoedd. Gwelwn ei golled ym mhob agwedd o fywyd yr eglwys ond deallwn yn iawn ei ddymuniad am seibiant! Diolch o galon, Edmond am eich ymroddiad hir i'r eglwys. Bydd yn ddipyn o gamp cael hyd i olynydd mor weithgar! Cynhelir etholiad ymysg y gynulleidfa cyn bo hir i lenwi y swyddi gwag .

**Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai**
*Ar y Sul*
Mae gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.
*Ar Dydd Mercher*
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Rhodd Pasg**
Derbynir yn ddiolchgar unrhyw roddion drwy siec yn daladwy i Eglwys Llandegai Church, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion; Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD neu Edmond Douglas Pennant (Trysorydd dros dro), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU. Os gwelwch yn dda a wnewch chi ysgrifennu enw llawn, cyfeiriad ac ebost ar eich rhodd: mae'n bosib hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys. Rhoddion erbyn diwedd Ebrill os gwelwch yn dda.

Wrth gwrs mae'n bosib talu drwy drosglwyddiad banc
(Cyfrif yr Eglwys: 30-90-43 00098435).

Diolch i bawb o'r ardal sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i'n hachos. Bydd y rhoddion yn benodol at atgyweirio waliau'r clochdŷ neu i dalu costau arferol cynnal a chadw yr eglwys.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 0124836152 neu gareth.lloyd@cinw.org.uk ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol ym Methesda â'n Caplan Bro, Parch Sara Roberts, SaraRoberts@cinw.org.uk

**CEISIADAU AM NAWDD ARIANNOL**

### Hysbysiad Pwysig

Mae **Cyngor Cymuned Llandygai** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/ Mudiadau lleol.

Cysylltwch am ffurflen gais a bydd angen ei ddychwelyd erbyn **19 Mawrth 2026**.

**Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:**
Sara Jones
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Y CYMRO
Tanysgrifiwch i'r Cymro
Tanysgrifiwch i dderbyn papur Y Cymro drwy'r post bob mis am £39 y flwyddyn neu fel PDF drwy e-bost bob mis am £15 y flwyddyn.
Cysylltwch gyda **tanysgrifio@ycymro.cymru** i drefnu



# Croesawu busnes newydd i'r stryd fawr

Efallai eich bod wedi sylweddoli fod gwaith paentio a chyrtans lliwgawr newydd wedi ymddangos mewn siop ar y stryd fawr (lleoliad Hwb Ogwen gynt). Y newyddion da ydy fod busnes newydd, Angladdau Enfys ar fin agor yno. Mae gan Angladdau Enfys siop ym Mangor eisioes, a braf oedd cael cyfle i holi Manon Williams, un o sylfaenwyr y cwmni, am eu gwaith.

**1. Beth fu arwain at agor y busnes newydd ar stryd fawr Bethesda?**
Roedden ni'n cysidro Bethesda pan yn edrych am ein lleoliad cyntaf yn 2020. Ond gan fod fy mhartner busnes yn byw'n Llangefni roedd yn gwneud synwyr i'n lleoliad cyntaf ni fod hanner fordd drwy'r ddwy ohonom ni. Mae'r busnes wedi tyfu bellach ac ers tua 6 mis rydyn ni di teimlo'n barod i agor ail swyddfa ond angen disgwyl nes i ni ffeindio'r adeilad cywir. Dim ond un lle roedden ni'n cysidro a Bethesda oedd hwnnw! Wedyn nes i ddod ar draws adeilad gwag (rhif 57 stryd fawr), ac roedd cyfle i roi ein stamp ni ar y lle. Mae o'n bwysig iawn i ni fod Enfys wedi ei leoli rhywle llawn bywyd a ddim yn cael ei guddio ar stryd gefn yn rhywle. Mae ein lleoliad ar styd fawr Bangor yn cynnig hynny a mae ein lleoliad newydd yn Bethesda yn teimlo'n berffaith hefyd.




**2. Sut bydde chi'n disgrifio Bethesda mewn 3 gair?**
Croesawgar, Cymdeithasol ac Adra! (Dwi ddim yn Howget, wedi symud yma tua 15 mlynedd yn ôl yn fam ifanc i un, ond erbyn rŵan, heb os, Bethesda ydy adra!)

**3. Beth sydd ar y gweill I chi I'r dyfodol?** Mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair i'n busnes bach ni, da ni'n teimlo fel mwy na jest cwmni trefnu angladdau a 'da ni isho archwilio hynny mhellach. Erbyn hyn da ni'n ymddiriedolwyr elusen sy'n rhedeg coedwig ar gyfer claddedigaethau naturiol ym Moduan (Y Goedwig Dragwyddol), 'da ni'n awyddus iawn i gynnig cefnogaeth o bob math i bobl sy'n galaru, gweithdai, grwpiau galar falla, a mwy! A hefyd eisiau cynnig lleoliad cyfforddus a chefnogol i bobl drafod marwolaeth ac angladdau os ydyn nhw'n dymuno. Mae'r adeilad wedi cael ei drawsnewid yn barod gyda mwy o waith i ddilyn, bydd croeso mawr i'r gymuned ddod i ddiwrnod agored i weld yr adeilad a thrafod y gefnogaeth allwn ni gynnig mewn mis neu ddau pan fydd y gwaith wedi gorffen.

## YSGOL LLANDYGAI

I orffen eu gwaith ar y thema 'Môr a Mynydd', bu Dosbarth Gwawr yn dysgu am stori Cantre'r Gwaelod. Buont yn adeiladu castelli tu mewn a thu allan, yn edrych ar waith celf amrywiol am y môr, yn cyfansoddi darn o gerddoriaeth am y môr ac yn recordio y stori. Cafodd y dosbarth hefyd ymweliad gan PC Tamsin fu'n sôn am 'Bobl sy'n ein helpu' a bu'r disgyblion yn mwynhau gwisgo dillad plismon a chael cylch goriad ôl bysedd.

Ar Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn ddiogel, y pwnc trafod ar draws yr ysgol oedd Deallusrwydd Artiffisial gyda'r oedrannau gwahanol yn defnyddio adnoddau gwefan 'saferinternet.org' sy'n hyrwyddo'r diwrnod i ysgolion. Trafodwyd seinyddion clyfar a'r ffaith nad oeddynt yn bersonnau go iawn ac er bod modd iddynt ateb cwestiynnau, roedd rhaid bod yn ofalus bod eu hatebion yn gywir. Trafodwyd hefyd y neges bwysig o sut i gyfathrebu ag eraill ar y wê a bod yn ddiogel arlein.

Bu dosbarth Tirion yn brysur mewn grwpiau yn cynllunio ac wedyn yn creu bagiau gwrth-ddŵr fyddai yn addas i fynd i fynydda. Cafodd y dosbarth bnawn hyfryd yn Eglwys Sant Tygai gyda'r Parchedig Sara yn gweld a thrafod pwysigrwydd dŵr mewn Bedydd Crisgnogol. (llun 1) Cafodd Blwyddyn 6 sesiynnau gan 'Beicio'n Gall' gyda Nicci a Gwyn o Gyngor Gwynedd. (llun 2) Mae disgyblion Blwyddyn 5 bellach wedi gorffen eu sesiynnau Ysgol Goedwig ac wedi mwynhau yn fawr y gweithgareddau y tu allan - o gydweithio i adeiladu den, creu siglen, creu addurn naturiol a chreu tylluan allan o bren. I ddiweddu eu cyfnod, mwynhaodd bawb rostio a bwyta malws-melys ar y tân.

Wrth i'r hanner tymor cyntaf y flwyddyn ddod i ben, cafodd y disgyblion ddisgo i ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Bu Junior, Cai, Teo, Brian a Cezar (o'r Cyngor Ysgol a'r Dreigiau Doeth) yn brysur yn dewis cerddoriaeth Gymraeg ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau yr ysgol a phawb wrth eu boddau yn dawnsio o dan y goleuadau lliwgar. Diolch iddynt am drefnu.

Ar ddiwrnod olaf y tymor ar ôl ysgol, cynhaliodd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ddigwyddiad yn y Clwb Rygbi. Cafwyd disgo llwyddiannus iawn gyda disgyblion a'r rhieni yn mwynhau dod at ei gilydd gyda cyfle i ddawnsio, sgwrsio ac wrth gwrs, ennill raffl! Diolch i'r Clwb Rygbi am eu caredigrwydd a'u cymorth ac i'r holl fusnesau a ffrindiau'r ysgol am eu rhoddion tuag at y noson. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu gwaith caled yn paratoi ar gyfer y noson.

SPAR
**01248 605566**
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

Mawrth 23
Ebrill 13 a 27

Croeso
cynnes
i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Mawrth 24 a 31
Ebrill 14 a 28

am 6.45yh.
Croeso i bawb

FESTRI CARMEL
LLANLLECHID

## Te Bach

Dydd Llun
20 Ebrill
2.30 – 4.00yp

Croeso cynnes
i bawb



Ti'n chwilio am le i fod yn greadigol, i wneud ffrindiau a chael hwyl?

Ymunwch â *Crawia*, ein clwb drama, i actio, creu straeon a disgleirio ar y llwyfan.

Wyt ti'n caru symud? Ymunwch â'n clwb *Dawns* egnïol lle gallwch fynegi'ch hun a magu hyder.

Neu ewch ati i wneud cerddoriaeth gyda RiFF, ein clwb cerddoriaeth, perffaith ar gyfer jamio, arbrofi gyda sain a darganfod eich steil eich hun.

**DAWNS**

Bob nos Fawrth 18:00 - 19:00, ar gyfer disgyblion bl 3 - 6 yn cychwyn o'r 3ydd o Fawrth.

**CRAWIA**

Bob nos Fercher ac yn cychwyn ar y 4ydd o Fawrth:
Bl 3 - 5: 18:00 - 19:00 & Bl 6 - 9: 19:00 - 20:00.

**RIFF**

WEDI'I GYFLWYNO GAN CERDD GYMUNEDOL CYMRU
Bob nos Iau 17:00 - 19:00 yn cychwyn ar y 5ed o Fawrth.

Dewch draw, rhowch gynnig ar rywbeth newydd, a byddwch yn rhan o gymuned greadigol a chroesawgar!

£6 y sesiwn. Archebwch le ar ein gwefan nawr!

NEUADD OGWEN
Neuadd Ogwen, Bethesda

ABBIE@NEUADDOGWEN.COM NEUADDOGWEN.COM 01248 208 850

# Nyth y Gân

Ni chafwyd colofn farddol yn ein papur ers rhai misoedd bellach, a hynny yn dilyn colli Dafydd Morris. Bu cefnogaeth Dafydd i'r golofn yn un arbennig, a hynny drwy gyfrannu englynion a thelynegion yn ddi-dor am ddegawdau.

Dyma ailgychwyn y mis hwn efo dwy gerdd. Daw'r gyntaf gan Gwilym Tudur Williams, Rachub.

## Llwynog yr Aryg



Mor gyfrwys yw llwynog yr Aryg
Yn stelcian dan feini di-rif,
Yn saff rhag cloddio'r hen fugail
A dannedd ei ddaeargi a'i wif.

Gorweddai mewn hedd yn ei siambar
Yn gwrando ar y cyffro uwchben,
Diddiben yw cais yr hen fugail,
Am adref â'i ddaeargast fach wen.

Ond heibio ddof eto'r hen lwynog,
A fyddi mor lwcus 'sgwn i
I gyrraedd dy ffau yn y mynydd
A threchu'r hen fugail a'i gi?

Daw'r gerdd arall gan Meilyr Wyn o Fryn Caseg.

## Plentyndod fy Mhlant

Darn bach o nefoedd a oedd yn fy ngofal,
Y lle oedd yn fendith wrth i mi ei gynnal;
Y chwilio diddiwedd am degan neu ddoli,
Y chwarae dychmygol, y chwerthin â'r miri.

Ti'n cofio'r hanesion cyn dweud nos da
Am arwyr ar antur dros foroedd o iâ?
A finna'n eu hadrodd heb sylweddoli
Bod terfyn ar eiriau pob llyfr a phob stori.

Fe ddeffrais i bore 'ma'n chwilio o hyd
Am allwedd yn ôl at gysur y byd
Fu'n bwrpas i'm bywyd ond sydd bellach tu hwnt,
Mae'r atgofion yn felys ond ffarwelio sy'n frwnt.

Dilynais olion ein traed hyd yr afon,
A'r dagrau yn llifo yn ogof fy nghalon
I ffeindio y drws neu ryw ffordd yn ôl
At y diniweidrwydd a ddaliais mor dynn yn fy nghôl.

Mae'r teganau'n yr atig erbyn hyn yn hel llwch
Dan glogyn y nos fe hwyliodd y cwch
A 'ngadael i yma fel telyn heb dant
Ond cân yn fy enaid am blentyndod fy mhlant.

..................

Diolch i'r ddau am eu cefnogaeth.
Anfonwch eich cerddi at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG.
ieuanwyn01@gmail.com

# Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Brysiwch wella**
'Rydym yn falch o glywed fod Non Thomas yn gwella ar ôl llawdriniaeth ddiweddar ar ei llaw. Gobeithio y byddi di'n gwella'n fuan Non.

Mae Cian Wyn, Stryd Goronwy wedi cael cyfnod anodd iawn o ran ei iechyd. Cafodd lawdriniaeth brys yn Walton ond 'rydym yn hapus iawn o glywed ei fod adref erbyn hyn ac yn cryfhau. Brysia wella Cian.

Un arall sydd wedi bod ddim yn dda'n ddiweddar ydi Linda Brown, Gwernydd. Gobeithio dy fod yn gwella ac yn cryfhau Linda.

**Diolch**
Dymuna teulu'r diweddar Gwyndaf Roberts, Ffordd Gerlan, ddiolch o waelod calon am yr holl gardiau a negeseuon o gydymdeimlad a gawsant fel teulu'n ddiweddar. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at Ward Alaw a Ward Conwy'n Ysbyty Gwynedd.



**Penblwydd Hapus**
Penblwydd hapus iawn i Jo Hinchcliffe, Stryd y ffynnon, sydd yn dathlu pen-blwydd arbennig. Mae Jo yn wirfoddolwr brwd a gwybodus tu hwnt yn ein Caffi Trwsio'n Gerlan ac yn adnabyddus i unrhyw un sydd yn mynychu'r Gofod Gwneud yng Nghefnfaes. Croeso i'r Clwb 50 Jo!

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Dafydd Hedd Stryd y Ffynnon a'i bartner Medi o Landegfan sydd wedi dod yn rieni am y tro cyntaf i ferch fach. Mae nain a taid Stryd y Ffynnon sef Alaw ac Andy Pritchard wedi gwirioni efo Ania fach. Pob dymuniad da i chi fel teulu bach.

Tydi gyrru tractor ddim yn hawdd dwi'n siŵr ond mae Isac Florence, Stryd Hir, wedi llwyddo i basio ei brawf gyrru tractor yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i ti Isac.

**Caffi Trwsio**
Diolch i bawb ddaeth i Gaffi Trwsio'r Caban diwedd Chwefror – 'roedd yn un prysur a difyr iawn fel arfer. Bydd y nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Sul y 29ain o Fawrth rhwng 11 ac 1. Croeso cynnes i bawb.

**Grŵp Gweu**
Cafwyd cyfarfod cyntaf o grŵp gweu newydd yn y Caban ar y 9fed o Chwefror. Daeth amrywiaeth o bobl draw o bob gallu ac 'roedd yn noson hwyliog a difyr iawn. Diolch i Angie Gun am drefnu ac am ddod ac enghreifftiau gwych o wlân a gwaith gweu Fair Isle. Fel rhywun sydd wedi ei geni a'i magu yn y Shetlands, 'roedd gan Angie straeon a gwybodaeth arbennig o'r diwydiant gwlân ar yr ynysoedd. Bydd y grŵp nesaf yn cael ei gynnal ar y 9fed o Fawrth. Croeso cynnes i bawb – o ddechreuwyr i weuwyr profiadol.

**Grŵp Gwnïo**
Mae'r grwp yn parhau i gael ei gynnal ar ddydd Llun olaf pob mis rhwng 6.30 ac 8.30. Bydd y grŵp nesaf yn cael ei gynnal dydd Llun y 30ain o Fawrth. Os 'da chi awydd rhoi tro ar wnïo a dim efo peiriant, cofiwch fod modd benthyg peiriant o Lyfrgell Petha Pesda trwy archebu ar www.pethaupesda.myturn.com/library/

Ym mis Chwefror, bu amryw o'r mynychwyr yn pwytho golygfeydd o Ynys Môn er mwyn cyfrannu tuag at brosiect Pwythau'r Pridd (Stitched to the Ground). Mae hwn yn gynllun tecstil cymunedol sydd yn dathlu daeareg, tirwedd a threftadaeth yr ynys. Dyma chydig o'r gwaith fydd yn cael eu hychwanegu at y gwaith gorffenedig fydd yn cael ei arddangos yn fuan.

**Taith Gerdded**
Fel rhan o brosiect LleChi LleNi Caban Gerlan, mae sawl taith gerdded yn cael eu trefnu eleni gyda help Partneriaeth Ogwen.

'Roedd y daith gerdded gyntaf ar ddydd Sadwrn Chwefror 21ain a bu Rhys Mwyn yn tywys grŵp o amgylch Bethesda gan sôn am hanes sîn roc y pentref. 'Roedd yn fore difyr iawn ac yn gyfle i sawl un hel a rhannu atgofion. Cafodd y daith ei ffilmio gan Partneriaeth Ogwen a'r gobaith yw y bydd ar gael i bobl ei wylio a gwneud defnydd ohono'n y dyfodol.

Bydd taith gerdded arall ar y 21ain o Fawrth o gwmpas Moel Faban dan arweiniad Jess John. Bydd y daith yma'n gyfle i ddysgu am chwedlau a straeon o Ddyffryn Ogwen gyda Jess o gwmni Tylwyth. Bydd y daith yn cychwyn yng Nghaban Gerlan am 9. Os nad ydych yn byw yn Gerlan, gallwch adael eich car yng Nghefnfaes a bydd cludiant cymunedol ar gael i'ch cludo i'r Caban.

Mae archebu lle'n hanfodol ar gyfer y daith a gallwch wneud hynny drwy e bostio gofod@ogwen.org.

Mae mwy o deithiau cerdded ar y gweill, felly cadwch lygad ar gyfryngau cymdeithasol Caban Gerlan a Phartneriaeth Ogwen ar gyfer unrhyw ddiweddariadau.

Mae'r gwaith yma yn rhan o gynllun LleChi LleNi: rhaglen buddsoddi cymunedol a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a arweinir gan Gyngor Gwynedd. Mae'n rhan o gyfres o fuddsoddiadau yn deillio o ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

## Caban Gerlan



CABAN GERLAN
HWB · CAFFI · CEGIN




1969
M.HUGHES
A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,
Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

BYSUS
D. P. OWENS
RHIWLAS

01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

## Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

**Cyfeillion Rhiwlas**

Bu'r Cyfeillion yn brysur yn ddiweddar yn trefnu eu rhaglen ar gyfer y misoedd nesaf. Y digwyddiad cyntaf fydd y noson Bingo sydd bob amser yn boblogaidd. Bydd hynny ar nos Sadwrn, Mawrth 28, y drysau ar agor am 6 o'r gloch ac 'eyes down' am 6.30.

Digwyddiad arall sydd hefyd yn boblogaidd (am resymau amlwg!) yw'r un Paned a Chacen. Gwnewch nodyn o'r dyddiad a'r amser: dydd Sadwrn, Ebrill 11 rhwng 1 a 3 o'r gloch.

Diolch i'r Cyfeillion am drefnu amrywiaeth o weithgareddau difyr. Dewch yn llu i'w cefnogi!

**Clwb Ieuenctid**

Siom enfawr oedd deall, ganol Chwefror, fod trefnwyr y Clwb Ieuenctid wedi penderfynu ei ddirwyn i ben oherwydd diffyg cefnogaeth yn y pentref a'r ardal. Meddai Efa Roberts, un o'r arweinwyr:

'Yn anffodus mae'r penderfyniad anodd i gau Clwb Ieuenctid Rhiwlas wedi ei wneud oherwydd diffyg niferoedd yn mynychu.'

Gobeithio'n wir y bydd modd ailgodi'r Clwb eto ymhen amser ac ail-ddenu'r criw ifanc yn eu holau.



**Merched y Wawr**

Mari oedd â gofal am gyfarfod mis Chwefror a chawsom amser difyr yn addurno bisgedi siâp calon gyda gwahanol ddeunyddiau (bwytadwy!) Cariad oedd thema'r cyfarfod a ninnau ar y pryd newydd ddathlu Gŵyl Santes Dwynwen ac yn edrych ymlaen at ddiwrnod Sant Ffolant.

Roedd Mari wedi dod â chasgliad diddorol iawn o lwyau caru efo hi a'r rheiny'n rhai oedd yn perthyn i'w rhieni gan gynnwys un a wnaed gan ei hen daid. Roedd un arall â'r dyddiad 1969 arno gan gynnwys portread o Gastell Caernarfon. Tra roeddem wrth ein gwaith cawsom gyfle hefyd i edrych ar fideo o wneuthurwr llwyau caru proffesiynol a rhyfeddu at ei waith cain.

## YSGOL RHIWLAS

Gan Nel Iolen Jones-Roberts, Blwyddyn 5

**Croesawu Mr Williams**

Hoffem estyn croeso i Aled Williams sydd yn ymuno gyda ni fel myfyriwr o'r Brifysgol ym Mangor. Bydd Mr Williams gyda ni hyd ddiwedd y flwyddyn, ac yn treulio y mwyafrif o'i amser yn dysgu yn y dosbarth bach. Croeso Mr Williams!

**Ymweliad gan yr Heddlu**

Roedd holl ddisgyblion yr ysgol i gyd yn lwcus iawn o dderbyn ymweliad gan yr Heddlu. Cafodd disgyblion cyfnod allweddol 1 gyfle i wisgo dillad yr Heddlu, tra bu disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dysgu am fwlio seibir.

**Amgueddfa Awyrennol Caernarfon**

Cafodd disgyblion cyfnod allweddol 2 daith werth chweil i Amgueddfa Awyrennol Caernarfon yn ddiweddar. Mae'r amgueddfa wedi'i lleoli ar gyn faes awyr RAF Llandwrog, ac mae ganddi gasgliad trawiadol o awyrennau gan gynnwys D.H. Vampire, Hawker Hunter F1, Hawker Sea Hawk, Westland Whirlwind a BAe Harrier. Heb os uchafbwynt yr ymweliad oedd cael cyfle i eistedd yn y awyrennau!

**Camau Cerdd**

Yn ystod mis Chwefror mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 a Blwyddyn 3 wedi bod yn mwynhau sesiynau 'Camau Cerdd' dan arweiniad Charlotte (un o diwtoriaid 'Camau Cerdd').

Mae Camau Cerdd yn brosiect a gynhelir mewn partneriaeth rhwng Canolfan Gerdd William Mathias a'r cerddor Marie-Claire Howorth. Mae'r dosbarthiadau wedi eu llunio'n ofalus er mwyn rhoi'r cychwyn gorau posib a sylfaen cerddorol cadarn i blant. Credir bod gan addysg gerddorol y gallu i ddatblygu sgiliau rhifedd, llythrennedd a chyfathrebu, deallusrwydd emosiynol, cydsymud, y cof a sgiliau cymdeithasol eraill ynghyd â bod yn llesol i'r ymennydd a'r corff. Mae disgyblion Ysgol Rhiwlas yn bendant yn mwynhau'r sesiynau!

**Clwb ar ôl ysgol yr Urdd**

Braf yw croesau Fflur o'r Urdd yn ôl i'r ysgol wedi seibiant dros hanner tymor. Mae Fflur yn arwain sesiynau chwaraeon yn y clwb ar ôl ysgol ac mae pawb wrth ei boddau yn dysgu campau amrywiol. Rygbi oedd thema y sesiwn gyntaf – tybed oes darpar chwaraewyr ar gyfer carfan Cymru ymysg disgyblion yr ysgol?

## Dechrau ar gam cyntaf gwaith adfer Afon Ogwen

Cyn bo hir bydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn dechrau ar gam cyntaf prosiect ar y cyd i adfer Afon Ogwen a'i llednentydd.

Bydd y gwaith, sy'n cael ei ariannu drwy raglen Argyfwng Natur a Hinsawdd (NaCE) CNC, yn helpu i wella iechyd afonydd, creu cynefinoedd bywyd gwyllt newydd a gwneud lle i ddŵr yn y dirwedd.

Bydd cam cyntaf y gwaith yn canolbwyntio ar Afon Cywion, llednant sy'n llifo islaw fferm Blaen y Nant yn Nant Ffrancon. Bydd y gwaith yn dechrau ddiwedd mis Chwefror 2026 a disgwylir iddo gymryd tua phythefnos i'w gwblhau.

Fel rhan o'r cam hwn, bydd deunydd




Y Meuryn, Ceri Wyn Jones, efo aelodau timau Dwy Ochr i'r Bont, y Llewod Cochion a Dros yr Aber. Roedd criw Y Tir Mawr wedi hel eu pac am Ben Llŷn erbyn hynny!

**Talwrn y Beirdd**

Noson i'w chofio yn hanes y Neuadd oedd nos Fawrth, Chwefror 17, pan ddaeth criw Radio Cymru draw i recordio dwy ornest o Talwrn y Beirdd. Ymhlith y timau oedd yn cymryd rhan roedd dau sydd wedi ennill y Talwrn bump o weithiau, felly roedd y safon yn uchel a phawb wedi mwynhau. Braf oedd gweld y Neuadd yn rhwydd lawn a'r ymateb yn gynnes. Cynhaliwyd raffl ar y noson hefyd i godi arian ar gyfer y Neuadd.

Roedd y criw wedi gwirioni ar yr adnoddau yn y Neuadd a'r timau yn gwerthfawrogi'r banad a'r cacennau ar ôl eu holl waith caled! Y ddau dîm aeth yn eu blaenau o'r ddwy ornest oedd Y Tir Mawr o Ben Llŷn a Dros yr Aber o Gaernarfon.

Hyfryd oedd cael ar ddeall mai'r un oedd yn gweithio ar yr ochr sain ar y noson oedd Gwenno, wyres Dilys Parry, Bryntirion. Mae Gwenno'n gweithio ar ei liwt ei hun ac wedi bod yn gweithio ar y Talwrn bellach ers tua phedair blynedd. Wrth sgwrsio efo hi yn yr egwyl rhwng y ddwy ornest roedd rhyw deimlad braf fod cylch wedi ei gyfannu.

## Capel Shiloh Newydd Rhiwlas

Dyma fanylion y gwasanaethau a gynhelir ar y Suliau canlynol yn y Neuadd:

Mawrth 22: Parch Peter Cutts (2 y.p.)
Mawrth 29: Ellie Jones (10 y.b.)
Ni fydd gwasanaethau dros wyliau'r Pasg
Ebrill 19: Parch Aled Davies (10 y.b.)

Croeso cynnes i bawb.

# Hwb Peris ar gael i gefnogi trigolion Rhiwlas

Mae Hwb cefnogi pobl newydd, Hwb Peris, wrthi'n cael ei sefydlu gan Menter Fachwen, yn eu swyddfa yn Cwm y Glo. Yn un o nifer o hubiau cefnogi pobl ar draws Gwynedd, mae Hwb Peris yn gallu darparau mynediad at wasanaethau fel cyngor ar gosatu byw, cyngor arbed ynni, neu apwyntiadau hefo CAB. Mae Hwb Peris hefyd yn cynnal gweithgareddau lles yn yr ardal mae'n ei gefnogi. Efallai ei fod yn od son am hwb 'Peris' yn Llais Ogwan, ond mae Rhiwlas o fewn cylch gorchwyl yr Hwb, ac felly mae croeso i drigolion Rhiwlas alw draw, neu gael mwy o wybodaeth o'r wefan www.hwbperis.org.

Un o weithgareddau'r hwb ydy 'Prydau Peris' prydau bwyd cymunedol bob Dydd Gwener tan diwedd Mawrth. Bydd Prydau Peris yn cynnal cinio yn Neuadd Rhiwlas Dydd Gwener y 20 Mawrth ac mae croeso cynnes i unrhyw un alw draw am bryd o fwyd blasus a sgwrs - am ddim!

sydd wedi cronni o weddillion a garthwyd o wely'r afon ar hyd Afon Cywion yn cael ei symud. Ar hyn o bryd mae'r dyddodion hyn yn gweithredu fel bwnd, ac yn rhwystro llif yr afon a'i datgysylltu oddi wrth ei gorlifdir naturiol. Bydd y deunydd yn cael ei storio gerllaw a'i ddefnyddio yng ngham nesaf y gwaith adfer.

Bydd rhan o'r wal gerrig ym mhen isaf Cae Twmffat, wrth ochr Afon Ogwen, hefyd yn cael ei datgymalu'n ofalus. Bydd cerrig y wal a adeiladwyd yn wreiddiol yn ystod cam cynharach o waith adfer, yn cael eu hailddefnyddio i godi waliau terfyn newydd o amgylch buarth y fferm - gan helpu i reoli'r da byw sy'n pori'r dyffryn a darparu'r cynefin sy'n gwneud y lle hwn yn arbennig.

Mae'r gwaith hwn yn gam pwysig er mwyn helpu'r afon i lifo mewn ffordd fwy naturiol a deinamig. Bydd ailgysylltu'r afon â'i gorlifdir yn arafu llif y



dŵr, gan leihau erydiad a'r risg o lifogydd i gymunedau a seilwaith i lawr yr afon. Bydd hefyd yn creu cynefin gwlyptir, yn adfer amgylcheddau graean afonydd agored, ac unwaith eto'n caniatáu cyflenwi a symudiad graean naturiol yn Afon Ogwen.

Bydd y gwelliannau hyn yn rhoi hwb i ardaloedd silio eogiaid a brithyllod môr ac yn creu amodau gwell ar gyfer adar sy'n ddibynnol ar afonydd fel bronwen y dŵr, pibydd y dorlan a glas y dorlan.

Meddai Sarah Aubrey, Uwch Swyddog Amgylchedd CNC:

"Mae'r prosiect hwn yn nodi cam cyntaf pwysig wrth ganiatáu i Afon Cywion ac Afon Ogwen ymddwyn yn fwy naturiol unwaith eto. Drwy wneud lle i ddŵr, gwella cynefinoedd ac adfer prosesau naturiol hanfodol, rydym yn helpu i greu system afonydd iachach a mwy gwydn ar gyfer bywyd gwyllt a phobl leol. Rydym yn falch o fod yn gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, ac o fod yn cefnogi'r cam hwn drwy ein cyllid Natur a'r Argyfwng Hinsawdd."

Meddai Dewi Davies, Rheolwr Prosiect, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru:

"Rydym yn adfer prosesau naturiol ac yn gwella cynefinoedd ym Mlaen y Nant fel bo'r dirwedd yn iachach ac yn well i natur yn y dyfodol. Mae hon yn fferm bwysig yr ydym yn bwriadu ei hail-osod yn fuan, a bydd cynefinoedd mwy gwydn yn ymblethu â model ffermio'r dyfodol."

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

## Carmel, Llanllechid

**Cydymdeimlo**
Roedd hi'n ddrwg iawn gennym ni glywed bod Mrs Millie Jones, Rynys, Rachub wedi colli ei chwaer sef Mrs Mali Wyn Evans o Abermaw. Rydan ni'n cydymdeimlo efo hi a'i merch Catherine a'i mab Elfyn a'r teulu i gyd.

Collodd Mrs Megan Tomos, Sychnant ei chwaer yng nghyfraith, sef Mrs Beryl Jones o Landudno. Bu diweddar ŵr Beryl, y Parchedig John Lewis Jones, yn hynod o selog i ni yng Ngharmel dros y blynyddoedd ac mi fyddai'n dod atom ni i bregethu ddwywaith neu dair bob blwyddyn am flynyddoedd lawer. Rydan ni'n cydymdeimlo efo Megan, Deri, Cynon, Branwen a'r teulu i gyd.



## Clwb Dwylo Prysur

Mae aelodau'r clwb wedi bod yn brysur yn gwau dros y misoedd diwethaf. Mae nhw'n gwau sgwariau a phatrymau lliwgar i'w gwnïo ar glustogau ar hyn o bryd. Diolch i Mrs Stella Davies am ddod i helpu'r genod i wneud pompomau i'w gwnïo o amgylch clustogau. Mae'r genod wedi cael hwyl ar y gwaith. Da iawn chi!

## Clwb Hanes Rachub

Cafwyd cyfarfod difyr dros ben o'r 'Clwb Hanes' yn ddiweddar, yng nghwmni'r ffotograffydd Dylan Arnold. Cyflwynwyd y siaradwr gwadd gan ffotograffydd arall o'r ardal, sef Nigel Beidas. Roedd Dylan yn trafod ei gyfrol 'Cymru Gudd' - llyfr sy'n llawn ffotograffau o hen adeiladau'r werin Gymraeg – adeiladau sydd wedi gweld dyddiau gwell yn bendant! Er nad ydy Dylan yn ystyried ei hun yn hanesydd o gwbl, yn sicr, mae wedi cyfrannu at y gwaith pwysig o gofnodi hanes, arferion a thraddodiadau Cymru mewn modd hollol unigryw.

Llwyddodd i ddarganfod hen adfeilion o bob math (gan amlaf yng nghefn gwlad Gogledd Cymru), gan wneud gwaith ditectif i ddarganfod pwy oedd trigolion mwyaf diweddar unrhyw ffermdy, gweithdy, capel a.y.b. Yn rhyfedd iawn, llwyddodd i ddarganfod nifer o ddisgynyddion i gyn-breswylwyr yr adeiladau, ac yn sgîl hynny, nifer o hanesion personol difyr a oedd yn gymorth i bortreadu bywyd pob dydd yn y cyfnod perthnasol.


Roedd ei ffotograffau o'r mannau dan sylw yn gampweithiau artistig yn cynnwys technegau arbennig yn ogystal â naws, teimlad ac awyrgylch anhygoel. Roedd ei driciau cyfrifiadurol yn effeithiol dros ben hefyd, e.e. gosod teulu o'r 19eg ganrif i sefyll ger eu cartref fel y mae'n edrych heddiw.

Mae copïau o'i lyfr 'Cymru Gudd' bron i gyd wedi eu gwerthu erbyn hyn, felly os ydych am ddarllen yr hanesion tu hwnt o ddifyr am y prosiect arbennig yma, galwch i mewn i'r llyfrgell ym Methesda, lle gellir archebu'r llyfr i chi. Mae'r hanesion yn bendant yn werth eu darllen!

Diolch yn fawr iawn Dylan - mae dy gyflwyniad yn bendant wedi creu argraff ar aelodau'r Clwb Hanes.

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf ar y 25ain o Fawrth - 'Artistiaid yr Ardal'.




*Oes diddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?*

## Cyfle i sefydlu canghennau o Gymdeithas yr Hoelion Wyth yng Ngogledd Cymru

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus ar nos Lun, 15 Ebrill, am 18.30 - 20:00yh yn Neuadd Bentref Trawsfynydd er mwyn cyflwyno a thrafod y posibilrwydd o sefydlu canghennau o 'Cymdeithas yr Hoelion Wyth' yng Ngogledd Cymru.

Mae Cymdeithas yr Hoelion Wyth yn gymdeithas sy'n cynnig cyfle i ddynion ddod ynghyd i gymdeithasu, trafod materion o ddiddordeb, a mwynhau adloniant mewn awyrgylch gyfeillgar. Yn barod, mae canghennau llwyddiannus wedi'u sefydlu mewn rhannau o Orllewin Cymru, lle maent yn trefnu rhaglen amrywiol o weithgareddau a digwyddiadau i'w haelodau.

Credir bod potensial sylweddol i ddatblygu canghennau tebyg ar draws Gogledd Cymru, gan gryfhau cysylltiadau cymunedol a darparu cyfleoedd cymdeithasol gwerthfawr i ddynion o bob oed.

Gwahoddir dynion o bob oedran sydd â diddordeb i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y camau nesaf tuag at sefydlu cangen yn eu hardaloedd, a derbyn arweiniad ymarferol ar y broses o wneud hynny.

Bydd lluniaeth ar gael yn rhad ac am ddim ar y noson. Bydd Llywydd y Gymdeithas, Eurfyl Lewis, yn bresennol i gyflwyno'r noson ac i ateb cwestiynau.

Felly rhannwch y neges yma gyda pawb rydych chi'n credu fydd hefo diddordeb; gyda corau, o fewn cymdeithasau Capeli ac ati er mwyn cael gymaint a fedrwn ar y noson i drafod.

Am ragor o wybodaeth am Gymdeithas yr Hoelion Wyth, ewch i: https://hoelionwyth.cymru/ ac am ragor o wybodaeth am y noson ei hun cysylltwch a chydlynydd neuadd bentref Trawsfynydd, Elfed Wyn ap Elwyn: elfed.neuaddirdyfodol@gmail.com / 07407028085

# YSGOL LLANLLECHID

**Gwellhad Buan i Anti Sharon**
Mae holl ddisgyblion a staff yr ysgol yn anfon eu dymuniadau gorau at Anti Sharon. Rydym i gyd yn meddwl amdani ac yn gobeithio y bydd yn teimlo'n llawer gwell yn fuan iawn. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ei gweld yn ôl yn ein plith yn yr ysgol cyn bo hir.

**Diogelwch ar y Ffordd i Flwyddyn 6**
Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi dechrau ar eu hyfforddiant beicio yn ddiweddar, gan roi cam pwysig ymlaen tuag at feicio'n ddiogel ac yn hyderus. Rydym eisoes wedi cwblhau un sesiwn lwyddiannus lle bu'r plant yn ymarfer eu sgiliau cydbwysedd a llywio. Mae'r hyfforddiant hwn yn hanfodol ar gyfer paratoi'r disgyblion i fod yn ddefnyddwyr ffordd cyfrifol wrth iddynt fwynhau rhyddid y dwy olwyn o amgylch y dyffryn. Diolch yn fawr i Morgan (Tad Enlli) o Beics Ogwen am ddod draw i atgyweirio'r beics – rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich amser a'ch cymorth. Mae eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r disgyblion ac yn sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan yn ddiogel ac yn hyderus

**Paratoadau'r Eisteddfod**
Mae sŵn canu ac adrodd i'w glywed ym mhob cornel o'r ysgol wrth i ni baratoi ar gyfer yr Eisteddfod. Mae'r plant a staff yn gweithio'n galed gyda'r plant yn awyddus i gynrychioli'r ysgol ar y llwyfan. Mae'r cyffro'n amlwg yn yr ysgol wrth i ni anelu at berfformiadau gwefreiddiol ac ymarfer yn ddiwyd ar gyfer y cystadlu sydd o'n blaenau.

**Serennu yn yr Eisteddfod Offerynnol**
Llongyfarchiadau mawr i ddau o disgyblion yr ysgol am eu llwyddiannau arbennig yn yr Eisteddfod Offerynnol yn ddiweddar. Cafwyd perfformiadau o safon uchel dros ben, gyda Iwan Hunnisett yn cipio'r safle cyntaf yn yr unawd pres i Flwyddyn 6 ac iau, ac Eban Hughes yn dod yn ail yn yr unawd piano i Flwyddyn 6 ac iau. Mae'r ysgol gyfan yn falch iawn o'u talent a'u hymroddiad cerddorol.

**Dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 1 ddiwrnod llawn lliw a chyffro yn ddiweddar wrth ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Yn rhan o'r dathliadau, bu'r plant yn cymryd rhan mewn gweithdy crefft creadigol, gan ddysgu am draddodiadau'r ŵyl wrth greu gwaith celf trawiadol. Roedd hi'n braf gweld y disgyblion yn ymgolli yn y diwylliant ac yn datblygu eu sgiliau dylunio ar yr un pryd.

**Dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yn Lliwgar**
Cafwyd diwrnod arbennig iawn yn yr ysgol wrth i ni ddathlu ein nawddsant. Roedd y neuadd yn fôr o goch a gwyn, gyda'r plant wedi gwisgo'n draddodiadol neu mewn crysau rygbi a phêl-droed Cymru. Bu'r disgyblion yn dathlu ein diwylliant, gan ddangos balchder mawr yn eu hiaith a'u treftadaeth. Gwych blantos!

**Disgo Dydd Gŵyl Ddewi yn Ysgol Dyffryn Ogwen**
I gloi dathliadau'r dydd mewn steil, cafwyd hwyl a sbri wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 fynychu disgo Dydd Gŵyl Ddewi a gynhaliwyd yn Disgo Dydd Gŵyl Ddewi yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd y neuadd yn llawn egni wrth i'r plant ddawnsio a mwynhau cerddoriaeth wych gydag unigolion o ysgolion eraill y dalgylch. Roedd hi'n gyfle arbennig i bawb gymdeithasu a dathlu ein diwrnod cenedlaethol mewn awyrgylch bywiog a chofiadwy. Diolch i staff Ysgol Dyffryn Ogwen am drefnu ac am y gwahoddiad.

**Hwyl a Sbri Diwrnod y Llyfr**
Roedd hi'n braf gweld cymaint o greadigrwydd yn yr ysgol ar gyfer Diwrnod y Llyfr eleni. Daeth cymeriadau o bob math yn fyw wrth i'r plant wisgo i fyny fel eu hoff arwyr o fyd llenyddiaeth. Cafwyd sesiynau darllen difyr a thrafodaethau am hoff storïau, gyda phwyslais ar rannu llawenydd darllen a darganfod llyfrau newydd sy'n tanio'r dychymyg.

**Ymweliad**
Cawsom ymweliad hyfryd yn ddiweddar pan ddaeth plant bach Cylchoedd Meithrin Ogwen a Chefnfaes draw am y bore. Bu cyfle iddynt wneud sawl gweithgaredd yn ystod y bore. Mwynhaodd pawb yn fawr, ac roeddent wrth eu boddau yn canu hwiangerddi traddodiadol rownd y piano gyda Mrs Humphreys. Edrychwn ymlaen at eich ymweliad nesaf.



**Robotiaid**
Tymor yma mae dosbarthiadau blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn brysur yn astudio thema Robotiaid. Ymysg y gweithgareddau oedd creu robot o ddefnyddiau ailgylchu, car bach gydag olwyn ac echel a drysfa marblis. Yn ogystal, cawsom ymweliad diddorol gan yr Archifdy a byddwn yn ymweld â Dangerpoint yn Talacre yn fuan. Mae'r disgyblion wedi bod yn codio efo Scratch yn ogystal â chreu cyfarwyddiadau ar gyfer ffrind. Tymor prysur a bywiog iawn!

**Amgueddfa Lechi**
Cafodd blwyddyn 5 ymweld â Chanolfan Gasgliadau Llandygai, sef cartref dros-dro holl gasgliadau'r Amgueddfa Lechi. Cawsom hwyl yn dysgu mwy am y gwaith sy'n digwydd tu ôl i'r llen! Yn y gweithdy rhyngweithiol cafodd y disgyblion weld sut mae'r Tîm Amgueddfa Cymru yn trefnu, adnewyddu ac yn gofalu am y casgliadau cenedlaethol. Gan weithio gyda'r tîm arbenigol, cawsom ddysgu am y swyddi gwahanol mewn amgueddfa.

**Criced**
Mae disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 wedi bod yn mwynhau sesiynau criced arbennig dros yr wythnosau diwethaf. Mae Luke, sef hyfforddwr o Griced Cymru wedi bod yn ymweld â'r ysgol i ddysgu sgiliau newydd i'r plant.

O daro'r bêl i ddatblygu sgiliau maesu a bowlio anhygoel, mae'r plant wedi bod yn dysgu sgiliau newydd sbon ac yn gwella'n wythnosol. Mae'r brwdfrydedd yn amlwg ac mae'n glir bod gennym ni ddoniau addawol iawn yn ein plith.


Y newyddion da yw bod y sesiynau'n parhau am ychydig wythnosau eto, felly mae digon o amser i fireinio'r technegau bowlio, maesu a batio hynny. Pwy a ŵyr – efallai mai dyma ddechrau gyrfa i rai o sêr y dyfodol!

Diolch i Luke am yr holl hwyl ac am ysbrydoli ein cricedwyr ifanc.



# CROESAIR





**AR DRAWS**

1 Gwlyb a phefriog mewn diod, ond swnio fel nodyn gwych (4)
3 Hagru y llygaid mae'r holl sbwriel yn harddwch natur medd yr arweinwyr (3)
7 Toreithiog fel perllan dda (8)
8 Dan draed ymhobman (4)
9 Yr hyn a ysgrifennwyd yn gerddorol neu lenyddol (11)
10 Mae'n cuddio yn y llwyn o gwmpas cwt yr ieir (6)
13 Math o driniaeth i oresgyn salwch (6)
15 Fel Nic Parry a Huw Llywelyn Davies gynt (11)
19 Camp consuriwr (4)
20 Cloi sied i guddio'r hoff felysion (8)
21 Cusan sydyn efallai (3)
22 Mewn llawn bryd (4)

**I LAWR**

1 Anhwylder corfforol y gellir bod angen 13 Ar Draws i'w wella (5)
2 "Hen, hen yw murmur llawer man sydd rhwng - - -   - - - - yn Rhoslan" RWP (3,4)
3 Un o grefftau pwysicaf y chwarelwr (5)
4 I'r ymylon, felly ni ddeil fymryn mwy (4,3)
5 Dymunol ac agos atoch (4)
6 Swnio fel ein prif emynyddes heb gerpyn amdani ; gwirion iawn fyddai hynny (6)
11 Y stŵr sy wrth chwilio am berl yn y cregyn (7)
12 Gallwn ddysgu Rwsieg yn drwyadl os cawn ddigon o'r rhain (6)
14 Arfau baril hir (7)
16 Mae'r loteri'n werth cynnig unrhyw swm arno os y teimlwch fel rhai o'r blaenoriaid !
17 Fe gymerodd lymaid (4)
18 Mae'n un o'r sol-ffa sy'n 1 Ar Draws (5)

**ATEBION CROESAIR CHWEFROR 2026**

**AR DRAWS** 1 Toc, 3 Cymharol, 8 Ynghanol, 9 Neges, 10 Nodio, 11 Dymunol, 12 Sgwyddo, 14 Oergell, 18 Corn-Bîff, 20 Amryw, 22 Piser, 23 Iawndal, 24 Mudandod, 25 Ofn

**I LAWR** 1 Teyrnas, 2 Cyhyd, 3 Cannoedd, 4 Melodi, 5 Arnom, 6 Organig, 7 Isel, 13 Wyresau, 15 Ehangwyd, 16 Llywelyn, 17 A Ffeind, 18 Copa, 19 Berfa, 21 Radio

Y maen tramgwydd mawr y tro yma oedd cliw 14 Ar Draws, gyda phump ohonoch yn rhoi 'rhewgell' yn lle'r ateb cywir 'oergell'. O ddarllen y cliw yn ofalus gwelid mai anagram oedd yr ateb. Y gwallau eraill oedd 'y ffrind' yn lle 'a ffeind' (17 I Lawr) ac 'aerow' yn lle 'amryw' (20 Ar Draws)

Llongyfarchiadau i'r canlynol am atebion hollol gywir : Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Iona Williams, Llanddulas; M. A. Jones, Llanllechid; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Ann Morris, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dulcie Roberts, Tregarth; Barbara Jones, Talybont; Judith Hughes, Llangoed; Stella Dafis, Rachub

Ond mae'r wobr a'r clod y mis yma yn eiddo i Jean Vaughan Jones, 12 Hafod Lon, Rhiwlas, Bangor LL57 4GD. Da iawn chi!

Atebion erbyn **3ydd Ebrill, 2026** fan bellaf *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Mawrth', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

## Ymddeol

Mae Karen (Cegin Karen) wedi penderfynnu ymddeol.
Colled fawr i bawb oedd yn hoffi'r bwydydd blasus roedd yn ei baratoi ers blynyddol lawer.
Dymuna Karen ddiolch o galon i bawb am eu holl gefnogaeth dros y blynyddoedd.
Dymunwn ninnau ymddeoliad hapus iawn iti Karen.

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207